



Education Achievement Service
for South East Wales
Gwasanaeth Cyflawni Addysg
I Dde Ddwyrain Cymru

Cynllun Busnes Rhanbarthol diwygiedig ar gyfer y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (Covid-19) (Medi 2020 – Mawrth 2021)



Cyflwyniad

Mae'r cynllun diwygiedig hwn ar gyfer Cynllun Busnes y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) yn darparu trosolwg o'r ffyrdd y bydd GCA yn ymdrechu i gefnogi ysgolion a lleoliadau ledled y rhanbarth dros y ddau dymor nesaf. Mae'n hanfodol bwysig bod y GCA yn parhau'n sensitif ac yn ymatebol i anghenion gweithlu ysgolion. Bydd ysgolion a lleoliadau'n wynebu llawer o heriau a dulliau newydd, ac mae'n rhaid i'r GCA fod yn sefydliad cefnogol, myfyriol ac ymatebol iawn. Bydd y cymorth y bydd y GCA yn ei gynnig yn cyd-fynd yn llawn â'r disgwyliadau a osodwyd gan awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru a chysylltiadau â gwaith ymchwil sy'n dod i'r amlwg. Bydd safbwyntiau arweinwyr ysgol yn ffactor hanfodol yn y ffordd y mae'r GCA yn ymateb i unrhyw ganllawiau cenedlaethol ac i anghenion lleol.

Mae'r GCA yn deall yr angen i orgyfathrebu'n glir er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch cyngor, canllawiau, cymorth a disgwyliadau. O ganlyniad, byddwn yn newid y defnydd o fodolau cyflawni presennol i gefnogi ysgolion a lleoliadau mewn ffordd sy'n sensitif o ran amser yn ystod y cyfnod nesaf. Bydd y GCA yn cydweithio ag Awdurdodau Lleol er mwyn lleihau unrhyw fiwrocratiaeth ddiangen i ysgolion a lleoliadau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu canolbwyntio ar y blaenoriaethau pwysig o fewn eu hysgolion a'u lleoliadau.

Cefnogi ysgolion drwy'r cyfnod 'Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau'

Bydd ffocws gwaith GCA yn cwmpasu'r agweddau canlynol. Bydd amseru, gwaith cyflawni a ffocws y cymorth yn cael ei ystyried yn ofalus o gofio'r heriau y mae ysgolion a lleoliadau yn eu hwynebu yn sgil y pandemig. Mae'n debygol y bydd llawer o ysgolion yn wynebu cyfnodau lle bydd gofyn i aelodau staff a disgyblion hunanynysu. O gofio hyn, mae'n rhaid i'r dysgu proffesiynol y mae'r GCA yn ei gynnig gefnogi ysgolion a lleoliadau i ymateb i'r heriau a wynebir wrth roi dysgu cyfunol ar waith.

Cymorth ar gyfer llesiant: Mae llesiant arweinwyr, aelodau staff a disgyblion yn parhau o bwys mawr. Bydd y GCA yn parhau i ddarparu adnoddau a chanllawiau ar gyfer ysgolion wrth gefnogi'r ysgol i adfer drwy fynd i'r afael â'r 5 R: Aildrefnu, myfyrio, adnewyddu, cydberthnasau ac ymlacio. Bydd y GCA hefyd yn cefnogi'r broses o roi ar waith y rhaglen genedlaethol ar gyfer hyfforddi a mentora, gyda ffocws penodol ar arweinwyr o fewn hyn.

Cefnogi arweinyddiaeth hyblyg ac arloesol: Bydd y GCA yn parhau i gydweithio ag ysgolion drwy'r rhwydweithiau sydd eisoes wedi'u sefydlu er mwyn sicrhau bod arweinwyr ar bob lefel yn barod i fod yn hyblyg, yn greadigol ac yn arloesol. Ar gyfer yr holl arweinwyr, bydd ehangu'r ffocws ar lesiant ac amddiffyn yn flaenoriaeth allweddol yn yr wythnosau a'r misoedd i ddod. Yn dilyn hyn, bydd yn gwbl angenrheidiol cryfhau addysgu a dysgu er mwyn sicrhau dull cyfunol o ddysgu pan fo ysgolion o bosibl yn gweithredu rhan o'u hamserlenni neu amserlenni wedi'u haddasu fel arall.

Cefnogi addysgu a dysgu effeithiol: Bydd y rhanbarth yn parhau i gefnogi ysgolion wrth iddynt ddatblygu strategaethau effeithiol ar gyfer addysgu a dysgu yng nghyd-destun dysgu o bell a dysgu cyfunol. Bydd hyn yn cynnwys y cyfuniad o rywfaint o ddysgu yn yr ystafell ddosbarth (cydamserol)

a rhywfaint o ddysgu ar-lein (cydamserol ac anghydamserol). Bydd y rhanbarth yn darparu amrywiaeth o ganllawiau a dysgu proffesiynol ar gyfer ysgolion o ran yr addysgegau effeithiol a allai gefnogi'r dull o ddysgu 'cyfunol'. Bydd hyn yn cynnwys cymorth dilynol pwrpasol i ysgolion a nodir, yn cynnwys pob ysgol uwchradd sy'n rhan o'r rhaglen beilot ranbarthol ar hyn o bryd ar gyfer addysgu a dysgu.

Dysgu Proffesiynol: Bydd y GCA yn parhau i ddarparu amrywiaeth o ddysgu proffesiynol sy'n canolbwyntio ar y canlynol:

- Cefnogi'r gweithlu cyfan i ddiwallu'r anghenion dysgu proffesiynol dros y flwyddyn academaidd nesaf.
- Sicrhau bod gan yr holl aelodau staff y sgiliau i gefnogi 'dysgu cyfunol'. I wneud hyn bydd angen cyfuniad o ddealltwriaeth o'r broses o gynllunio'r cwricwlwm (yn seiliedig ar y modelau cyswllt y mae ysgolion yn eu datblygu), yr addysgeg sy'n sail i ddysgu 'cyfunol' effeithiol a'r sgiliau digidol i gefnogi, strwythuro a gwella hyn.
- Sicrhau bod gan yr holl aelodau staff yr wybodaeth a'r sgiliau i gefnogi lles dysgwyr.

Gwerthfawrogi yn llawn y bydd cyfnodau pan na fydd ysgolion a lleoliadau yn gallu cael mynediad at ddysgu proffesiynol. Lle bynnag y bo'n bosibl, bydd sesiynau dysgu proffesiynol yn cael eu recordio er mwyn sicrhau eu bod ar gael yn rhwydd i'w defnyddio ar yr adeg fwyaf priodol i ysgolion unigol.

Cynllunio ar gyfer dysgu i gynnwys cymorth ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru: Bydd y GCA yn parhau i gefnogi ysgolion wrth gynllunio ar gyfer dysgu, gan ystyried beth mae'r gwaith ymchwil yn ei ddweud wrthym o ran cefnogi'r gwaith o gynllunio'r cwricwlwm, addysgu a dysgu yn y cyfnod nesaf a'r ffordd y mae hyn yn gysylltiedig â'r canllawiau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Nid yw'r amserlen ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru wedi newid. Mae'r sefyllfa gyfredol yn rhoi cyfle i ysgolion dreialu dulliau sy'n cyd-fynd yn well â'r cwricwlwm presennol.

Rhannu ymarfer effeithiol: Yn seiliedig ar ganlyniadau'r dystiolaeth a gasglwyd, bydd amrywiaeth o ysgolion / lleoliadau yn parhau i gael eu dewis i greu astudiaethau achos o ymarfer sy'n werth ei rannu, gan adeiladu ar ddeunyddiau presennol, mewn fformat a chyfrwng amrywiol. Bydd y rhain yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Dull yr ysgol ar gyfer dysgu o bell a'r ffordd y caiff ei fireinio dros amser.
- Strategaethau sy'n dod i'r amlwg y mae'r ysgol/lleoliad wedi eu defnyddio i sicrhau ansawdd y ddarpariaeth dysgu o bell ar gyfer dysgwyr.
- Strategaethau ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr 'anodd eu cyrraedd'.
- Dulliau er mwyn sicrhau llesiant dysgwyr.

Bydd yr holl astudiaethau achos yn cael eu rhannu ag ysgolion a lleoliadau. Yn ogystal, bydd cyfarfodydd 'Timau o Amgylch yr Ysgol' yn cael eu defnyddio i ddarparu cymorth gyda ffocws a dysgu proffesiynol mewn ysgolion a nodir. Dyma fydd y cyfrwng hefyd ar gyfer dechrau samplu a

rhannu darpariaeth bresennol ar gyfer dysgu o bell ar hyd a lled y rhanbarth, gan ddatblygu modelau sicrwydd ansawdd ar y cyd ag awdurdodau lleol.

Yr hyn rydym ni'n bwriadu ei gynnig i ysgolion a lleoliadau?

Mae'r camau isod wedi'u datblygu mewn cydweithrediad â'n partneriaid allweddol, ac mae llawer o'r camau gweithredu wedi'u mireinio o Gynllun Busnes 2020/21 y cytunwyd arno'n wreiddiol. Fel y nodwyd uchod, bydd y GCA yn sensitif ac yn ymatebol i flaenoriaethau sy'n newid a gall fod angen iddo newid cyfeiriad ac ailfeddwl ei flaenoriaethau wrth i'r tymor fynd rhagddo. Bydd y camau gweithredu'n cwmpasu unrhyw strategaethau datblygu lleol a chenedlaethol y cytunir arnynt gydol y cyfnod hwn.

Beth fydd y GCA yn ei gynnig i ysgolion a lleoliadau yn ystod y cyfnod hwn?

Bydd cymorth ar gael i bob ysgol a lleoliad, mae yna ddealltwriaeth y bydd ysgolion a lleoliadau yn wynebu heriau gwahanol ar wahanol adegau. Penderfyniad arweinwyr fydd pennu'r math o bresenoldeb mwyaf priodol ac amseriad y presenoldeb hwnnw ar gyfer unrhyw fath o gymorth sydd ar gael neu'r holl gymorth yn unol â'u blaenoriaethau.

1.1 Cefnogi'r broses o fireinio a datblygu effaith yr holl ddysgu proffesiynol byw, ar y we neu'n rhithwir, i gynnwys dolenni i ddysgu o bell a dysgu cyfunol

- Cefnogi ysgolion i ddatblygu dulliau dysgu cyfunol effeithiol, gyda ffocws ar y ddarpariaeth a sicrhau ansawdd dysgu o bell a dysgu cyfunol ar lefel yr ysgol.
- Darparu sesiynau 'byw' ac wedi'u recordio o Ddysgu Proffesiynol er mwyn sicrhau y gall ysgolion gael mynediad i hyn fel y bo'n briodol i'w hamgylchiadau.
- Sicrhau ansawdd adnoddau e-ddysgu ar-lein er mwyn cyfeirio ysgolion at arferion gorau ar draws yr holl grwpiau oedran, yn cynnwys y rhai sy'n briodol ar gyfer Lleoliadau nas Cynhelir a'r Blynyddoedd Cynnar.

1.2 Ysgolion fel Sefydliadau Dysgu

- Cynllunio a hwyluso dysgu proffesiynol sy'n annog ysgolion i barhau i ddatblygu fel sefydliadau dysgu effeithiol.
- Darparu rhaglen gydgyssylltiedig o gymorth er mwyn sicrhau bod yr holl ysgolion yn datblygu fel sefydliadau dysgu effeithiol e.e. sut i ddefnyddio'r arolwg i lywio blaenoriaethau datblygu'r ysgol, yn enwedig yn ystod cyfnod COVID a'r ffordd y bydd hyn yn llywio eu dulliau dysgu o bell a dysgu cyfunol ar gyfer 20/21.
- Cynnig cymorth rhithwir ychwanegol, fel y bo'n briodol, ar gyfer yr ychydig o ysgolion sy'n weddill sydd heb eto ymgysylltu â'r arolwg ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu.
- Rhannu astudiaethau achos lle mae ysgolion a chlystyrau yn datblygu'n effeithiol fel sefydliadau dysgu, yn enwedig y rhai sydd wedi datblygu dulliau effeithiol ar gyfer dysgu o bell a dysgu cyfunol.

1.3 Dysgu Proffesiynol

- Sefydlu timau mewnol i ddatblygu a chasglu adnoddau dwyieithog ar gyfer dysgu proffesiynol i gynnwys: Cwricwlwm i Gymru, Addysgu a Dysgu, Llesiant a Thegwch, Arweinyddiaeth a llywodraethu.
- Darparu canllawiau i ysgolion ar oresgyn heriau ar draws y system o ran addysg y Gymraeg yn yr hinsawdd cyfredol.
- Cytuno ar y cynnwys y gellir cael gafael arno drwy ddysgu o bell a dulliau ymgysylltu posibl yn ystod y cyfnod hwn o ddychwelyd i'r ysgol yn rhannol i gynnwys y defnydd o dechnoleg e.e. modiwlau ar-lein, podlediadau, gweminarau.

1.4 Cwricwlwm i Gymru (CiG)

- Cydweithio â phartneriaid eraill haen ganol a llywodraeth Cymru i gefnogi'r system gyfan wrth baratoi ar gyfer y broses o weithredu Cwricwlwm i Gymru.
- Amserlennu'r broses o ryddhau deunyddiau dysgu proffesiynol a seminarau ar-lein, yn cynnwys fersiynau wedi'u recordio, i gefnogi'r broses o wireddu cwricwlwm i Gymru.
- Rhoi enghreifftiau i ysgolion o weithdrefnau datblygu ysgolion ar gyfer diwygio'r cwricwlwm sy'n cefnogi dysgu o bell a dysgu cyfunol ac sy'n cynorthwyo ysgolion i'w rhoi ar waith.
- Annog yr holl ysgolion i gael eu llywio gan waith ymchwil drwy greu rhwydwaith o ymholwyr arweiniol o ysgolion dysgu proffesiynol i ddatblygu'r gallu ar gyfer ymholi proffesiynol ym mhob ysgol, gyda ffocws ar ddulliau dysgu o bell a dulliau dysgu cyfunol.
- Adolygu strategaeth y Gymraeg y rhanbarth mewn cydweithrediad ag arweinwyr ysgol a phartneriaid eraill, gan ystyried y canfyddiadau er mwyn llywio modelau cyflawni yn y dyfodol.

1.5 Addysgu a Dysgu

- Nodi a rhannu strategaethau effeithiol, ysgol gyfan ar gyfer dysgu o bell a dysgu cyfunol ar gyfer addysgu a dysgu o'r rhanbarth a thu hwnt er mwyn cynyddu disgwyliadau ynghylch darpariaeth ac i leihau amrywioldeb.
- Cydweithio â phartneriaid i gefnogi datblygiadau cenedlaethol ynghylch y rhaglen ddysgu carlam a deunyddiau cysylltiedig, bydd hyn yn cynnwys y deunyddiau cymorth ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg pan fo dysgwyr wedi eu magu ar aelwyd Saesneg ei hiaith.
- Cefnogi ysgolion i ddefnyddio tystiolaeth amrywiol er mwyn gwella ansawdd eu darpariaeth dysgu o bell a dysgu cyfunol drwy ddull cyffredin wedi'i foddelu a'i lywio.
- Nodi arweinwyr, athrawon a chynorthwywyr addysgu effeithiol a chydweithio â nhw o fewn y rhanbarth a thu hwnt iddo o bob cyfnod er mwyn rhannu arferion gorau eu dulliau dysgu o bell a dysgu cyfunol ac sy'n cofnodi cynnydd dysgwyr.
- Parhau i weithio mewn partneriaeth â phartneriaid allweddol, i gynnwys llywodraeth Cymru a Sefydliadau Addysg Uwch, i gynnig rhaglen o ddysgu proffesiynol er mwyn datblygu hyfedredd staff yn y Gymraeg.
- Llunio deunyddiau cymorth ar gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored a dysgu proffesiynol ategol ar gyfer pob cyfnod addysg yn unol â chanllawiau gweinidogol.

- Parhau i ddatblygu adnoddau e-ddysgu ar gyfer dysgwyr o bob grŵp oedran, yn cynnwys dysgwyr agored i niwed, gyda ffocws ar ddysgwyr B10 a B12, wedi'i gynnal ar Hwb, gydag arweinwyr tîm yn sicrhau'r ansawdd.

1.6 Cynorthwyr addysgu dysgu proffesiynol

- Darparu cynnig dysgu proffesiynol rhithwir wedi'i ddiwygio sy'n cefnogi cynorthwyr addysgu waeth a ydynt y newydd i'r rôl, yn gynorthwydd addysgu neu fel cynorthwydd addysgu lefel uwch.

1.7 Dysgu Proffesiynol ar gyfer proses sefydlu statudol

- Parhau i fireinio a datblygu'r cymorth sefydlu ar gyfer athrawon Newydd Gymhwys yn wyneb newidiadau yn ystod cyfnod COVID a'r newidiadau o ganlyniad i gyfnod COVID. Bydd cynnig dysgu proffesiynol rhithwir a chyfunol ar gael ac yn cynnwys Dysgu Proffesiynol i gefnogi rôl mentor sefydlu yn yr ysgol, rôl y dilysydd allanol a'r cymorth a ddarperir y tu hwnt i'r cyfnod sefydlu statudol. Cryfhau gwaith partneriaeth â sefydliadau Addysg Uwch i gynnig cymorth sefydlu ar y cyd i bobl gael mynediad yn gynnar yn eu gyrfa.

1.8 Addysg Athro Cychwynnol

- Parhau i gydweithio â phartneriaid addysg uwch, partneriaid trawsffiniol ac ysgolion wrth ddatblygu a darparu pob llwybr i mewn i addysg athrawon cychwynnol, yn wyneb y newidiadau a roddwyd ar waith yn ystod cyfnod COVID a fydd yn effeithio ar ddarpariaeth a mynediad i ysgolion yn ystod 2020/21.

Arweinwyr ysbrydoledig yn gweithio ar y cyd er mwyn codi safonau

1.9 Cynnig dysgu proffesiynol cenedlaethol ar gyfer arweinwyr

- Darparu cynnig dysgu proffesiynol diwygiedig rhithwir ar gyfer dysgu cyfunol mewn partneriaeth â sefydliadau addysg uwch a rhanbarthau eraill i gefnogi arweinwyr ar bob lefel ym mhob ysgol a lleoliad drwy raglenni amrywiol wedi'u hardystio'n genedlaethol. Adolygu'r modelau hwyluso ar gyfer dysgu proffesiynol ar gyfer yr holl arweinwyr Canol, arweinwyr uwch, darpar benaethiaid / unigolion sy'n paratoi ar gyfer Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth yng Nghymru (CPCP), CPCP, Penaethiaid newydd a dros dro, penaethiaid profiadol.
- Gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i gefnogi arweinwyr ysgol i fynd i'r afael â'r camau, fel y bo'n briodol, yn y cyd-destun cyfredol, sydd wedi'u cynnwys yn y strategaeth Cymraeg mewn Addysg a Cymraeg 2040: strategaeth y Gymraeg.
- Amserlennu'r broses o ryddhau deunyddiau a seminarau ar-lein i gefnogi parhad dysgu proffesiynol ar draws cerrig milltir allweddol sydd wedi cychwyn rhaglenni Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol cyn mis Mawrth 2020 yn cynnwys:
 - Rhaglen Datblygu Arweinwyr Canol, diwrnodau 1-5.
 - Penaethiaid Newydd a Dros Dro, diwrnodau 3 a 4.
 - Penaethiaid Profiadol - Cohort 2 + ymlaen, diwrnodau 1 a 2.

- Darparu mynediad at ddysgu proffesiynol a deunyddiau amrywiol sy'n cefnogi arweinwyr i reoli yn ystod y cyfnod cyfredol hwn yn seiliedig ar y meddylfryd rhyngwladol a gwaith ymchwil gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), Llywodraeth Cymru, Sefydliad Addysg, Gwyddoniaeth a Diwylliant y Cenhedloedd Unedig (UNESCO), EEF, UNICEF.

1.10 Nodi, recriwtio a chadw arweinwyr effeithiol

- Nodi arweinwyr ysbrydoledig a rhoi dysgu proffesiynol pwrpasol iddynt ac amrywiaeth o brofiadau arweinyddiaeth sy'n eu helpu i ddatblygu siwrne o ddysgu proffesiynol unigol, yn y sectorau cyfrwng Cymraeg ac uwchradd yn benodol (Adnodd Peilot Dysgu Proffesiynol ar gyfer Rheoli Talentau Rhanbarthol).
- Cydweithio ag awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu i ymchwilio i fodolau arweinyddiaeth amrywiol e.e. Prifathrawiaeth Weithredol
- Bydd Arbenigwr AD arbenigol rhanbarthol yn cydweithio ag awdurdodau lleol er mwyn adolygu a diwygio prosesau recriwtio arweinyddiaeth uwch i gynnwys defnyddio gwerthusiadau gan amrywiaeth o randdeiliaid a dysgu proffesiynol ar gyfer penodi aelodau o'r panel.
- Mewn partneriaeth â rhanbarthau eraill a sefydliadau addysg uwch, darparu rhaglen fentora a hyfforddi rhithwir, genedlaethol, gyfunol i ddatblygu a chefnogi arweinwyr ysgol a llywodraethwyr.

1.11 Llywodraethwyr

- Sefydlu prosesau ar gyfer cefnogi cyfarfodydd rhithwir o gyrrff llywodraethu, sy'n galluogi cyrrff llywodraethu i gyflawni eu hymatebion statudol a rheoli busnes brys.
- Datblygu a darparu ystod ehangach o hyfforddiant rhithwir fel y gall yr holl lywodraethwyr gefnogi agweddau ar eu rôl statudol a chynghor penodol hefyd yn ystod y cyfnod hwn.
- Parhau i gynnal sesiynau briffio ar gyfer Cadeiryddion Llywodraethwyr ar draws yr holl gyfnodau.

1.12 AD Arbenigol

- Cymorth recriwtio ar-lein rhithwir i barhau a datblygu dogfennau'n cynnwys y prif ystyriaethau ar gyfer pob ysgol a chorff llywodraethu, yn cynnwys Penodiadau Prifathrawon.
- Datblygu protocolau a dogfennau ategol ar gyfer cyfarfodydd o bwylgor statudol rhithwir.
- Datblygu sesiynau Dysgu Proffesiynol arbenigol AD rhithwir / ar-lein e.e. cynnal sgysiau anodd

1.13 Cymorth wedi'i dargedu ar gyfer yr ail gyfnod (yn ogystal â'r uchod)

- Darparu cymorth, cyngor ac adnoddau ar gyfer grwpiau blwyddyn penodol y mae cyfres arholiadau 2021 wedi effeithio arnynt a'r disgyblion hynny sydd angen dysgu carlam.
- Parhau i gydweithio ag ysgolion uwchradd a nodwyd i ddatblygu eu strategaethau addysgu a dysgu.
- Archwilio'r cyfleoedd a allai fodoli ar gyfer datblygu adnoddau dysgu Ôl-16 cydweithredol.

- Parhau i ddarparu ystod o strategaethau i gefnogi arweinyddiaeth addysgu a dysgu drwy ddull dysgu o bell a dysgu cyfunol e.e. ysgol i ysgol, dulliau sy'n cael eu llywio gan waith ymchwil.
- Parhau i ddarparu dysgu proffesiynol ar gyfer Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion llywodraethwyr mewn ysgolion uwchradd gan ganolbwyntio ar wella ansawdd arweinyddiaeth ac addysgu a dysgu gan gyfeirio at ddysgu cyfunol.
- Adolygu a mireinio Cynghorydd Herio cydgysylltiedig a chymorth sy'n benodol i'r pwnc a darpariaeth mewn ysgolion a nodwyd e.e. amser bloc dwys, cynghorydd herio a model ysgol i ysgol.

Maes Gwella 2	Dolen i Genhadaeth ein Cenedl: Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i ragoriaeth, tegwch a llesiant
Beth fydd y GCA yn ei gynnig i ysgolion a lleoliadau yn ystod y cyfnod hwn?	
Bydd cymorth ar gael i bob ysgol a lleoliad, mae yna ddealltwriaeth y bydd ysgolion a lleoliadau yn wynebu heriau gwahanol ar wahanol adegau. Penderfyniad arweinwyr fydd pennu'r math o bresenoldeb mwyaf priodol ac amseriad y presenoldeb hwnnw ar gyfer unrhyw fath o gymorth sydd ar gael neu'r holl gymorth yn unol â'u blaenoriaethau.	
<ul style="list-style-type: none"> • Sefydlu'r Strategaeth Tegwch a Llesiant rhanbarthol (sy'n cwmpasu strategaethau ar gyfer pob dysgwyr agored i niwed) er mwyn datblygu ymhellach waith amlasiantaeth mewn amgylchedd rhithwir, er mwyn adeiladu ar y ddarpariaeth gyffredinol i bob ysgol a lleoliad. • Cynnal elfen llesiant y rhestr chwarae ranbarthol (5R i Lesiant) er mwyn cynorthwyo ysgolion. • Nodi a rhannu ymarfer effeithiol o'r rhanbarth a thu hwnt i'r rhanbarth. 	
2.1 Dysgu Proffesiynol (rhithwir, fel y bo'n briodol)	
<ul style="list-style-type: none"> • Cydweithio â phartneriaid i gefnogi datblygiadau cenedlaethol ynghylch y Rhaglen Dysgu Carlam a deunyddiau cysylltiedig ar gyfer dysgwyr agored i niwed. • Darparu rhaglen o ddysgu proffesiynol drwy ddull 'Hyfforddi'r Hyfforddwr' sy'n rhoi'r sylfaen i ddarpariaeth gyffredinol ar draws pob ysgol a lleoliad. • Datblygu a darparu amrywiaeth o gyfleoedd dysgu proffesiynol rhithwir, gan gydweithio ag Ysgolion Rhwydwaith Dysgu Llesiant a Thegwch. 	
2.2 Codi Cyrhaeddiad Pobl Ifanc dan Anfantais (RADY)	
<ul style="list-style-type: none"> • Ymestyn y rhwydwaith o ysgolion sy'n cymryd rhan yn y rhaglen 'Codi cyrhaeddiad pobl ifanc dan anfantais (RADY)' ac ategu'r rhaglen hon gyda chyfarfodydd rhwydwaith RADY bob tymor a chylchlythyr bob hanner tymor. 	
2.3 Cwricwlwm i Gymru	
<ul style="list-style-type: none"> • Cefnogi ysgolion gyda'r Maes Dysgu Iechyd a Lles, gan ddarparu adnodau a rhannu arferion yn rhith fel y bo'n briodol. • Creu pecyn cymorth i helpu ysgolion i gynllunio ar gyfer Maes Dysgu Iechyd a Lles. 	
2.4 Grantiau Datblygu Disgyblion (PDG)	
<ul style="list-style-type: none"> • Rhoi'r dull a gytnwyd ar waith er mwyn cymeradwyo'r Grant Datblygu Disgyblion. 	

- Parhau i gefnogi ysgolion a lleoliadau gyda'r gwaith o gynllunio gwariant y cynllun grant. Parhau i roi canllawiau i ysgolion fel y gallent gwblhau, cyhoeddi a gwerthuso effaith y Grant Datblygu Disgyblion fel y bo'n briodol yn y cyfnod hwn.

2.5 Gwaith partneriaeth

- Cydweithio ag awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod cynlluniau strategol awdurdodau lleol ar gyfer dysgwyr agored i niwed yn cael eu hategu gan y strategaeth ranbarthol.
- Cydweithio â Chydgysylltwyr Plant sy'n Derbyn Gofal yr awdurdod lleol i ddarparu sesiynau cymorth, fel y bo'n briodol.
- Cefnogi'r Swyddog Trawsnewid Rhanbarthol i ddiweddarau rhanddeiliaid, fel y bo'n briodol, ar ddiwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol a chefnogi'r broses o lywio'r rhaglen dysgu proffesiynol er mwyn bodloni gofynion y Diwygiadau i Anghenion Dysgu Ychwanegol sy'n newid.

2.6 Cymorth wedi'i dargedu ar gyfer y cyfnod uwchradd (yn ogystal â'r uchod)

- Ymestyn Prif raglen Dysgwyr Agored i Niwed.
- Rhoi rhwydwaith dysgu proffesiynol rhithwir ar waith i gefnogi ysgolion i ddiwallu anghenion eu disgyblion mwyaf abl ac ymwneud â'r rhaglen Seren.
- Lledaenu'r tri modiwl dysgu proffesiynol ar gyfer yr holl staff uwchradd gan ganolbwyntio ar The Wonder of Mind Mapping, Engaging the Disengaged, The Revision Review ac Adapting to Adversity.

Maes Gwella 3	Asesu cadarn, mecanweithiau gwerthuso ac atebolrwydd, cefnogi system hunanwella
<p>Beth fydd y GCA yn ei gynnig i ysgolion a lleoliadau yn ystod y cyfnod hwn?</p> <p>Bydd cymorth ar gael i bob ysgol a lleoliad, mae yna ddealltwriaeth y bydd ysgolion a lleoliadau yn wynebu heriau gwahanol ar wahanol adegau. Penderfyniad arweinwyr fydd pennu'r math o bresenoldeb mwyaf priodol ac amseriad y presenoldeb hwnnw ar gyfer unrhyw fath o gymorth sydd ar gael neu'r holl gymorth yn unol â'u blaenoriaethau.</p>	
<h3>3.1 Asesu, gwerthuso ac atebolrwydd</h3> <ul style="list-style-type: none"> • Mireinio'r dull rhanbarthol ar gyfer yr ysgolion sy'n peri pryder mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol yn wyneb y sefyllfa er mwyn sicrhau bod ysgolion a nodir yn gwneud cynnydd priodol ac wedi'u cefnogi'n dda. 	

- Gweithredu'r broses ranbarthol i gefnogi ysgolion wrth ddatblygu eu Cynllun Datblygu Ysgol a'u cynlluniau grant.
- Darparu amrywiaeth o gymorth pwrpasol i ysgolion sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau datblygu'r ysgol (gyda ffocws ar ddysgu o bell/dysgu cyfunol).
- Darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer ysgolion, cyrff llywodraethu, awdurdodau lleol ac aelodau etholedig er mwyn deall y trefniadau asesu ac atebolrwydd sy'n newid drwy'r amser.
- Darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu proffesiynol rhithwir i bob ysgol a lleoliad er mwyn hyrwyddo gwaith hunanwerthuso effeithiol mewn perthynas â dysgu o bell, prosesau cynllunio gwelliannau a strategaethau effeithiol ar gyfer asesu ffurfiannol.
- Darparu dysgu proffesiynol rhithwir parhaus ar gyfer aelodau etholedig mewn perthynas â gwaith y GCA a'r dirwedd addysgol gyfredol fel y gallant gyflawni eu rôl yn effeithiol yn wyneb y cyd-destun cyfredol.

3.2 System Hunanwella

- Mireinio'r dull ar gyfer Ysgolion Rhwydwaith Dysgu i adlewyrchu blaenoriaethau newydd sy'n dod i'r amlwg ar gyfer y gwasanaeth yn cynnwys yr angen i gefnogi dulliau dysgu o bell / cyfunol.

3.3 Gwaith Partneriaeth

- Parhau i gydweithio â Llywodraeth Cymru, Estyn a phartneriaid trawsffiniol er mwyn ymateb i amgylchiadau deinamig yn ymwneud â pharhad dysgu, datblygu adnoddau, rhyddhau deunyddiau a gweithgareddau dysgu proffesiynol fel y gall yr holl randdeiliaid gefnogi'r cynlluniau cenedlaethol ar gyfer dulliau dysgu cyfunol.
- Bydd y grŵp trawsffiniol ar gyfer dysgu proffesiynol yn parhau gyda'u datblygiadau ar gyfer adnoddau i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru.
- Cefnogi a chynghori awdurdodau lleol, fel y bo'n briodol, wrth iddynt ddarparu eu swyddogaethau statudol ar gyfer SACRE a datblygu cynlluniau Strategol unigol Cymraeg mewn Addysg.
- Parhau i weithio ar draws yr holl grwpiau trawsffiniol er mwyn lledaenu strategaethau i ysgolion i gefnogi grwpiau o ddysgwyr sy'n agored i niwed.
- Parhau i gynnal cysylltiadau ag Arweinwyr Cynhwysiant Awdurdodau Lleol, Cydgysylltwyr Plant sy'n Derbyn Gofal a'r Swyddog Trawsnewid Rhanbarthol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Maes Gwella 4	Datblygu Busnes GCA <ul style="list-style-type: none"> • Datblygu systemau a phrosesau diwygiedig sy'n galluogi'r cwmni i fynd ati'n effeithiol ac effeithlon i gefnogi ysgolion a lleoliadau yn ystod y cyfnod hwn. • Sicrhau bod GCA yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol ac yn cefnogi'n llawn llesiant aelodau staff.
Beth fydd GCA yn ei wneud?	
<ul style="list-style-type: none"> • Parhau i fireinio'r model busnes ar gyfer y GCA er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol cyfredol ac yn mynd i'r afael â nhw. • Parhau i gyfathrebu'n effeithiol ag aelodau staff y GCA er mwyn sicrhau eu bod yn wybodus am y sefyllfa gyfredol ac i gefnogi eu hiechyd a'u lles. • Mynd ati'n rheolaidd i asesu risg y sefyllfa er mwyn pennu'r camau nesaf ar gyfer y gweithlu yn unol â chanllawiau cyfredol gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. • Parhau i gydweithio â phartneriaid allweddol er mwyn sicrhau y gwneir y gorau o grantiau rhanbarthol ac i sicrhau Cydweithredu a Chytundeb Aelodau diwygiedig. • Sicrhau effeithiolrwydd bwrdd y cwmni a'r pwyllgor sicrwydd risg ac archwilio, drwy'r cyfnod hwn drwy ddefnyddio technoleg rithwir. • Parhau i ddatblygu'r adnodd rhanbarthol ar gyfer mapio grantiau er mwyn sicrhau y gellir craffu ar ddata mewn dull mwy effeithlon ac effeithiol, er mwyn cael effaith ar yr hyn a gesglir ac er mwyn cael gwerth am arian i'r ysgol, yr Awdurdod Lleol ac ar lefel ranbarthol. • Rhoi argymhellion yr adolygiad gwerth am arian diweddar ar waith a gweithio er mwyn comisiynu'r model ar gyfer 20/21. • Mireinio a gwella ymhellach y strategaeth gyfathrebu er mwyn sicrhau bod gwaith ymgysylltu priodol â rhanddeiliaid yn mynd rhagddo yn ystod y cyfnod cyfredol hwn. • Parhau i ymgysylltu â chonsortia a sefydliadau haen ganol eraill, fel Estyn, er mwyn sicrhau effeithlonrwydd wrth ddatblygu a darparu rhaglenni. 	



Education Achievement Service
for South East Wales
Gwasanaeth Cyflawni Addysg
i Dde Ddwyrain Cymru

Arloesi
Gonestrwydd

Rhagoriaeth

Atebolrwydd

Cydweithredu



EAS

Education Achievement Service
for South East Wales
Gwasanaeth Cyflawni Addysg
i Dde Ddwyrain Cymru

Gwasanaeth Cyflawni Addysg i Dde Ddwyrain Cymru: Cynllun Busnes (2020-2021)

“Trawsnewid deilliannau disgyblion, creu
capasiti drwy rwydweithiau, a galluogi
rhagoriaeth mewn addysgu a dysgu”

Mae proses ymgynghori wedi cael ei chynnal ynghylch Cynllun Busnes y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA). Rhestrir yr ymgynghoreion isod:

- Staff y GCA
- Cyfarwyddwyr Addysg (Rhanbarth De Ddwyrain Cymru) a Chyfarwyddwyr yr Esgobaethau
- Grŵp Gweithredol ar y Cyd y Rhanbarth
- Bwrdd Cwmni'r GCA
- Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risgiau'r GCA
- Pwyllgorau craffu addysg awdurdodau lleol unigol
- Grŵp Strategaeth Penaethiaid y Rhanbarth
- Holl Benaethiaid y Rhanbarth
- Holl Gadeiryddion Cyrff Llywodraethu'r rhanbarth
- Cynghorau Ysgolion yn y rhanbarth
- Pob Arweinydd Dysgu Proffesiynol mewn ysgolion

Caiff fersiwn terfynol y Cynllun Busnes ei gytuno'n ffurfiol gan Gyfarwyddwr Addysg/Prif Swyddog Addysg pob awdurdod lleol, y Grŵp Gweithredol ar y Cyd a Bwrdd y Cwmni.

<p>Y Cynghorydd K Preston</p> <p>Cadeirydd Bwrdd Cwmni'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg</p>	
<p>Y Cynghorydd D Yeowell</p> <p>Cadeirydd y Grŵp Gweithredol ar y Cyd</p>	
<p>Ms D Harteveld</p> <p>Rheolwr Gyfarwyddwr y Gwasanaeth Cyflawni Addysg</p>	
<p>Mr Will McClean</p> <p>Y Cyfarwyddwr Arweiniol ar ran Grŵp Cyfarwyddwyr De Ddwyrain Cymru</p>	

Cynnwys

Adran	Ffocws	Tud.
1	Cyd-destun Rhanbarthol	4
2	Trosolwg	6
	<ul style="list-style-type: none"> Beth mae'r GCA yn ei wneud ar ran awdurdodau lleol a sefydliadau eraill ac mewn partneriaeth â hwy? 	6
	<ul style="list-style-type: none"> Sut mae'r GCA yn cynorthwyo ysgolion a lleoliadau i nodi eu blaenoriaethau ar gyfer gwelliant a mynd i'r afael â hwy? 	6
3	Y Model Darparu Rhanbarthol	9
	Cynllun Busnes Cenhadaeth Rhanbarth De Ddwyrain Cymru (2020/2021)	10
	<ul style="list-style-type: none"> Cyflwyniad 	10
	<ul style="list-style-type: none"> Sut mae'r GCA wedi hysbysu ei bartneriaid yn yr awdurdodau lleol am gynnydd ac effaith y Cynllun Busnes blaenorol yn 2019/2020? 	11
	<ul style="list-style-type: none"> Blaenoriaethau Rhanbarthol 2020/2021 	13
	<ul style="list-style-type: none"> Blaenoriaethau Strategol Awdurdodau Addysg Lleol 2020/2021 	15
4	<ul style="list-style-type: none"> Cynllun Busnes (2020/2021): Meysydd Gwella 1-4 	18
	<ul style="list-style-type: none"> Uchelgeisiau ar gyfer 2020/2021 ac wedi hynny 	25
	Trefniadau cyflawni ar gyfer 2020/2021	26
	<ul style="list-style-type: none"> Llywodraethu a chyllid 	26
	<ul style="list-style-type: none"> Sut byddir yn sicrhau bod y GCA yn atebol am gyflawni'r Cynllun Busnes a'i effaith? 	26
	<ul style="list-style-type: none"> Cyllid consortiwm 	26
	<ul style="list-style-type: none"> Cyfraniadau gan Awdurdodau Lleol: 	27
<ul style="list-style-type: none"> Grantiau gwella ysgolion rhanbarthol 	27	
5	<ul style="list-style-type: none"> Cytundeb Lefel Gwasanaeth y Gwasanaeth Cefnogi Llywodraethwyr 	28
	Dogfennau ategol ychwanegol	29

Adran 1: Cyd-destun rhanbarthol

Pam y GCA? Pam y model hwn?

Mae'r model canoledig o ddarparu gwasanaethau sydd wedi'i fabwysiadu ar draws rhanbarth De Ddwyrain Cymru wedi sicrhau arbedion effeithiolrwydd ac arbedion maint, yn enwedig o ran osgoi dyblygu swyddogaethau a'r gallu i sicrhau ystod o arbenigedd ym maes addysg ar draws y rhanbarth. Mae'r doniau a'r arbenigedd sydd ar gael mewn ysgolion yn y rhanbarth a thu hwnt yn cael eu cymell a'u defnyddio'n effeithiol i gynorthwyo i gynnal gweithgarwch dysgu proffesiynol a gwella ysgolion.

“Mae'r dull rhanbarthol o ddefnyddio adnoddau yn sicrhau y gellir cyflawni arbedion maint; ac mae'r effaith ar ddarparu gwasanaethau yn sgil gostyngiad yn adnoddau'r GCA yn cael ei lliniaru gan ymdrech ar y cyd i ddatblygu gallu cydadferol mewn ysgolion i sicrhau y gellir cynnal ansawdd y cymorth a ddarperir i ysgolion.” (Adroddiad ynghylch Gwerth am Arian y GCA, 2018/2019)

Ffeithiau a ffigurau allweddol y rhanbarth



Roedd 72,698 o ddisgyblion oedran ysgol gorfodol yn y rhanbarth yn 2019. Mae hynny'n gyfystyr ag 19% o'r holl ddisgyblion yng Nghymru.



Ceir 234 o ysgolion a gynhelir yn y rhanbarth, 16% o'r holl ysgolion a gynhelir yng Nghymru (roedd ffigur y GCA yn gywir ym mis Medi 2019; dyfynnir ffigur Cymru o CYBLD 2019).



Ceir 20 o ysgolion cynradd Cymraeg, 3 ysgol uwchradd Gymraeg, 17 ysgol Gatholig ac 11 o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru yn y rhanbarth.



Ceir 234 o ysgolion a gynhelir yn y rhanbarth, 16% o'r holl ysgolion a gynhelir yng Nghymru (roedd ffigur y GCA yn gywir ym mis Medi 2019; dyfynnir ffigur Cymru o CYBLD 2019).



Mae'r ganran o ddisgyblion oedran ysgol gorfodol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) yn 19.2%. Mae lefel y cymhwystra hwn yn gydradd uchaf ymlith y pedwar consortiwm rhanbarthol gyda Chonsortium Canol De Cymru (CYBLD, 2019).



Yn y rhanbarth, dywed 10% o bobl sy'n 3 mlwydd oed ac yn hŷn y gallant siarad Cymraeg, o gymharu â chyfartaledd o 19% ar lefel Cymru (Cyfrifiad 2011, y Swyddfa Ystadegau Gwladol).



Mae'r ganran o ddisgyblion sy'n 5 mlwydd oed neu hŷn ac yn hanu o gefndir lleiafrif ethnig yn 10.8%.



Ar sail niferoedd a adroddwyd gan awdurdodau lleol (Haf 2019), mae 1024 o blant y rhanbarth yn blant sy'n derbyn gofal (LAC) gan awdurdod lleol ac yn mynychu ysgol yn y rhanbarth.

Trosolwg o niferoedd ysgolion yn y rhanbarth

(PLASC 2019)

Caerffili (19.7% PYDd)

- 14 Lleoliadau Meithrin Nas Cynhelir
- 63 Cynradd (11 Cymraeg, 1 Catholig)
- 6 Babanod
- 4 Iau
- 11 Uwchradd (1 Cymraeg)
- 1 Arbennig
- 1 Uned Cyfeirio Disgyblion
- 1 3-18

Casnewydd (19.4% PYDd)

- 24 Lleoliadau Meithrin Nas Cynhelir
- 2 Meithrin
- 43 Cynradd (3 Cymraeg, 2 Eglwys yng Nghymru, 6 Catholig)
- 9 Uwchradd (1 Cymraeg, 1 Catholig)
- 2 Arbennig
- 1 Uned Cyfeirio Disgyblion

Blaenau Gwent (22.7% PYDd)

- 2 Lleoliadau Meithrin Nas Cynhelir
- 19 Cynradd (1 Cymraeg, 3 Catholig, 1 Eglwys yng Nghymru)
- 2 Uwchradd
- 2 Arbennig
- 2 3-16

Sir Fynwy (11.3% PYDd)

- 27 Lleoliadau Meithrin Nas Cynhelir
- 30 Cynradd (2 Cymraeg, 6 Eglwys yng Nghymru, 2 Catholig)
- 4 Uwchradd
- 1 Arbennig
- 1 Gwasanaeth Cyfeirio Disgyblion

Torfaen (22.0% PYDd)

- 15 Lleoliadau Meithrin Nas Cynhelir
- 25 Cynradd (3 Cymraeg, 3 Eglwys yng Nghymru, 3 Catholig)
- 6 Uwchradd (1 Cymraeg, 1 Catholig)
- 1 Arbennig
- 1 Gwasanaeth Cyfeirio Disgyblion

Trosolwg o staffio yn ysgolion y rhanbarth

Awdurdod Lleol	Nifer y Staff Addysgu	Nifer y Staff Cymorth
Blaenau Gwent	511	575
Caerffili	1,519	1,366
Sir Fynwy	679	642
Casnewydd	1,427	1,283
Torfaen	773	751
Y GCA	4,909	4,617

Trosolwg o lywodraethwyr ysgolion y rhanbarth*

Awdurdod Lleol	Nifer y Llywodraethwyr Ysgolion*
Blaenau Gwent	323
Caerffili	1076
Sir Fynwy	461
Casnewydd	822
Torfaen	405
Y GCA	3087

*Cywir ar 4.02.2020

Adran 2: Trosolwg

Beth mae'r GCA yn ei wneud ar ran awdurdodau lleol a sefydliadau eraill ac mewn partneriaeth â hwy?

Mae'r GCA yn gwmni dielw sy'n eiddo i'r pum awdurdod lleol yn Ne Ddwyrain Cymru. Trwy gyfrwng Cynllun Busnes cytunedig, mae'r GCA yn darparu ystod eang o wasanaethau gwella ar gyfer ysgolion (ym mhob cyfnod allweddol), unedau cyfeirio disgyblion a lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir ar ran bob awdurdod lleol. Mae'r cynllun hwn yn ategu'r rôl sydd gan awdurdodau lleol o ran cyflawni eu swyddogaethau statudol, mynd i'r afael â'u blaenoriaethau unigol o ran gwella a sicrhau deilliannau gwell i ddisgyblion. Mae'r Cynllun Busnes yn cwmpasu darpariaeth yn y meysydd dilynol:

- Monitro, herio, cynorthwyo ac ymyriadau
- Diwygiadau o ran y cwricwlwm, asesu ac atebolrwydd
- Casglu a dadansoddi data a chymorth ynghylch data (ar lefelau ysgolion, ALI a'r rhanbarth)
- Dysgu Proffesiynol: Addysgu ac Arweinyddiaeth
- Dysgu Proffesiynol: Cynorthwywyr Addysgu/Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch
- Tegwch a Llesiant
- Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol
- Datblygiad y Gymraeg a'r Gymraeg mewn Addysg
- Pynciau craidd a phynciau nad ydynt yn bynciau craidd
- Cymorth i gyrff llywodraethu yn cynnwys dysgu proffesiynol
- Strategaethau cenedlaethol, yn cynnwys: Ysgolion Creadigol Arweiniol, Dyfodol Byd-eang
- Cymorth arbenigol ym maes Adnoddau Dynol
- Rhaglen Addysg Gychwynnol Athrawon/Athrawon Graddedig

Sut mae'r GCA yn cynorthwyo ysgolion a lleoliadau i nodi eu blaenoriaethau ar gyfer gwelliant a mynd i'r afael â hwy?

Mae buddsoddiad rhanbarthol er mwyn datblygu capasiti ysgolion a lleoliadau addysgol yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf wedi galluogi dulliau mwy cydweithredol o weithio a symudiad tuag at greu system o ysgolion sy'n hunan-wella. Mae'r GCA yn parhau i ymrwymo i gynorthwyo i ddatblygu gweithlu dwyieithog medrus mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg. Mae'r dull hwn yn caniatáu i athrawon ac arweinwyr (yn y rhanbarth a thu hwnt) ddysgu oddi wrth ei gilydd, rhoi cynnig ar ddulliau newydd a chyfranogi mewn ymchwil addysg fel cyd-destun ar gyfer gwelliannau.

Ar draws y rhanbarth ar hyn o bryd, mae'r GCA yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gynorthwyo a herio ysgolion i wella. Caiff effaith ac effeithiolrwydd y strategaethau eu hadolygu'n rheolaidd trwy gyfrwng prosesau mewnol ac allanol. Mae'r rhanbarth wedi comisiynu sawl adolygiad allanol yn ystod y 3 blynedd ddiwethaf sydd wedi cynorthwyo i lunio cyfeiriad y dyfodol ar sail egwyddorion effeithiol system hunan-wella.

Dyma grynodedb o'r strategaethau cynorthwyo dwyieithog hyn:

- Rôl yr Ymgynghorydd Her o ran cynorthwyo ysgolion i fynd i'r afael â'u blaenoriaethau canfyddadwy, brocera cymorth ar eu cyfer a herio cyflymder y cynnydd a wneir ganddynt.
- Rôl swyddogion y GCA (yn cynnwys cymorth ynghylch pynciau penodol, cymorth i lywodraethwyr, llesiant a thegwch) o ran cynorthwyo ysgolion i fynd i'r afael â'u blaenoriaethau canfyddadwy, brocera cymorth ar eu cyfer a herio cyflymder y cynnydd a wneir ganddynt.

- Mynediad at rwydweithiau a ariennir o ysgolion sy'n cynorthwyo â phob agwedd o ddatblygiad proffesiynol a gwella ysgolion, gan ganolbwyntio ar wella ansawdd arweinyddiaeth ac addysgu a dysgu;
- Mynediad at ystod eang o ddarpariaethau dysgu proffesiynol, yn cynnwys rhai sydd ag opsiynau achredu ar gyfer cynorthwywyr addysgu, athrawon ac arweinwyr a llywodraethwyr ysgolion;
- Gwaith gan grwpiau cymheiriaid ac adolygiadau gan gymheiriaid;
- Y defnydd o anogwyr a mentoriaid hyfforddedig ac achrededig (o'r rhanbarth a thu hwnt) i gynorthwyo athrawon ac arweinwyr; a
- Mynediad at ddeunyddiau e-ddysgu ac adnoddau o ansawdd uchel.

Darparu dysgu proffesiynol i ysgol neu glwstwr, neu ar raddfa ranbarthol

5. Ysgolion Rhwydwaith Dysgu (YRHD)

Lle bydd ysgolion yn ymgysylltu ag ysgolion eraill ar draws y rhanbarth a thu hwnt i ddatblygu ymarfer ym maes dysgu, addysgu ac arweinyddiaeth.

Mae YRHD yn cynnig amrywiaeth o gymorth mewn meysydd arbennigol fel datblygu'r cwricwlwm (Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDPh)), neu themâu allweddol fel llesiant, dysgu ac addysgu neu agweddau ar arweinyddiaeth. Gall ysgolion dderbyn cymorth mewn maes pwnc penodol fel leithoedd, Llythrennedd a Chyfrathrebu (ILiCh), Cymraeg neu Wyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM). Yn ogystal â hyn, gellir darparu YRHD i gynorthwyo ysgolion unigol ar eu taith tuag at welliant ym mhob agwedd berthnasol ar wella'r ysgol.

4. Cynnig Craidd a Phrofiadau Dysgu Proffesiynol (DP)

Mae cynnig DP y GCA yn rhoi cyfle i unigolion, ysgolion a chlystrau gael cymryd rhan mewn amrywiaeth o brofiadau DP, wedi'u seilio ar nodau'r Genhadaeth Genedlaethol

Mae staff craidd y GCA a'r ysgolion yn darparu mynediad i ystod eang o gyfleoedd dysgu proffesiynol sydd yn cefnogi gwireddu'r Genhadaeth Genedlaethol, gan hyrwyddo'r amcanion galluogi. Mae'r Ymagwedd Genedlaethol at Ddysgu Proffesiynol yn sail i'r cynnig DP, ac mae'n annog arweinydd, athrawon, cynorthwyyr addysgu a llywodarethwyr i gymryd rhan mewn ystod o gyfleoedd DP yn y rhanbarth a thu hwnt. Yn ogystal â chael cyfle i ymgysylltu ag arfer gorau ac ymchwil ryngwladol.

5. Ysgolion Rhwydwaith Dysgu

Dysgu Proffesiynol Rhanbarthol: Model Darparu

2. Gweithio gyda Chymheiriad

Cydweithio a chyd-ddysgu â chydweithwyr er mwyn sicrhau gwelliannau o ran dysgu, addysgu ac arweinyddiaeth sy'n sicrhau deilliannau gwell i bob dysgwr.

Mae'r GCA yn cynorthwyo arweinyddwyr ysgolion i ddatblygu adolygiad cymheiriad trwyadl sydd wedi'i ddylunio a'i reoli'n dda. Mae'n cynnwys arweinyddwyr lefel uwch, arweinyddwyr canol ac athrawon yn un o'r gweithgareddau mwyaf buddiol a dylanwadol y gall ysgolion mewn system aeddfed a arweinig gan sectorau ei gynnal. Bydd mabwysiadu'r ymagwedd hon o gymorth i feithrin diwylliant o atebolrwydd sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth ac, i gefnogi hynny, ffocws ar welliant amwng, ac ymrwymiad i roi cymorth y naill yr ysgol i'r llall.

3. Rhwydweithiau Hunanddewisol

Lle bydd ysgol yn manteisio ar gyfleoedd rhydwdeithio, lle gall ymarferwyr rannu a datblygu ymarfer i wella arweinyddiaeth, dysgu ac addysgu o fewn eu cyd-destunau eu hunain, yn enwedig yn y cyfnod uwchradd.

Mae'r rhanbarth yn cynnig cyfleoedd wedi'u hariannu i ysgolion a lleoliadau gael rhydwdeithio mewn triawdau / grwpiau bach hunanddewisol bob blwyddyn. Mae angen i geisiadau, y bydd aelodau o Grŵp Strategaeth Pensaethol yn cytuno arnynt, adlewyrchu meysydd rhanbarthol â blaenoriaeth a nodwyd yng Nghynllun Busnes y GCA, a rhaid iddynt gynnwys elfen o ymchwil sy'n seiliedig ar weithredu. Bydd pob grŵp rhydwdeithio yn cyflwyno gwerthusiad ar ddiwedd y prosiect. Caiff arfer da ei gasglu a'i rannu.

1. Gwaith Clwstwr Daearyddol

Cydweithio i sicrhau cyd-atebolrwydd am gynnydd y dysgwr

Bydd arweinydd dysgu proffesiynol ar sail clwstwr yn trefnu a chydgysylltu cymorth ar gyfer dysgu proffesiynol a mynediad at hynny. Mae gan bob ysgol arweinydd dysgu proffesiynol a arlennir yn rhanbarthol sy'n cydgyssylltu'r gwaith hwn ar raddfa'r ysgol. Mae'r arweinydd seiliedig ar glwstwr yn rhoi'r newyddion diweddiara'r o fewn y clwstwr gyda diweddiariadau a deunyddiau datblygu i gefnogi'r holl flaenoriaethau allweddol, i gynnwys: Ysgolion fel Sefydliadau Dysgu, Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth, Fframwaith Dysgu ac Addysgu Rhagorol (ETLF) a'r gwaith hwn ei ddisbarthu i'r holl ysgolion / ymarferwyr drwy'r arweinydd ysgol enwedig. Bydd y GCA yn trefnu sesiynau brifffio rheolaidd gydag arweinyddwyr dysgu proffesiynol.

penaethiaid, cadeiryddion llywodraethwyr a phartneriaid awdurdodau lleol er mwyn sicrhau cysondeb o ran negeseuon, dealltwriaeth a rolau a chyfrifoldebau perthynol mewn meysydd gwaith allweddol.

2. Gweithio gyda Chymheiriad

Cydweithio a chyd-ddysgu â chydweithwyr er mwyn sicrhau gwelliannau o ran dysgu, addysgu ac arweinyddiaeth sy'n sicrhau deilliannau gwell i bob dysgwr.

Mae'r GCA yn cynorthwyo arweinyddwyr ysgolion i ddatblygu adolygiad cymheiriad trwyadl sydd wedi'i ddylunio a'i reoli'n dda. Mae'n cynnwys arweinyddwyr lefel uwch, arweinyddwyr canol ac athrawon yn un o'r gweithgareddau mwyaf buddiol a dylanwadol y gall ysgolion mewn system aeddfed a arweinig gan sectorau ei gynnal. Bydd mabwysiadu'r ymagwedd hon o gymorth i feithrin diwylliant o atebolrwydd sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth ac, i gefnogi hynny, ffocws ar welliant amwng, ac ymrwymiad i roi cymorth y naill yr ysgol i'r llall.

Lle bo modd, mae adnoddau ar gael mewn fformat digidol er mwyn galluogi ysgolion i ddefnyddio'r rhain ar gyfer dysgu proffesiynol y staff.

Beth yw'r model a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau ar draws y rhanbarth?


Mae'r GCA yn cynnig Arlwy Dysgu Proffesiynol cynhwysfawr i ysgolion a lleoliadau ar draws y rhanbarth. Yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, mae'r rhanbarth wedi ariannu ysgolion i ddarparu cyfran sylweddol o'r gweithgarwch dysgu proffesiynol, ac mae cyfran helaeth iawn o hynny yn cael ei gynnig mewn clystyrau, ac felly, gellir ei ddarparu yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae gan bob clwstwr arweinydd dysgu proffesiynol dynodedig sy'n trefnu ac yn cydlynu cymorth i gynnal dysgu proffesiynol a mynediad at hynny ar draws pob un o'r clystyrau. Yn ychwanegol, mae gan bob ysgol arweinydd dysgu proffesiynol a ariennir yn rhannol sy'n cydlynu'r gwaith hwn ar lefel yr ysgol. Mae cymorth trwy gyfrwng yr ysgolion niferus sy'n rhan o'r rhwydweithiau dysgu a ariennir hefyd yn cael ei drefnu ar sail daearyddol i ategu'r model darparu hwn, gan sicrhau bod darpariaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Bydd arweinydd dysgu proffesiynol y clwstwr hefyd yn rhoi diweddariadau a deunyddiau dysgu proffesiynol i bob ysgol yn y clwstwr i gynorthwyo i gyflawni holl flaenoriaethau allweddol Cenhadaeth ein Cenedl, yn cynnwys: Cwricwlwm Cymru, Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu, a'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth. Rhennir y gwaith hwn â phob ysgol/ymarferwr trwy law eu harweinwyr dysgu proffesiynol penodedig.

Hefyd, mae gan bob clwstwr gysylltiad ag un o ysgolion arloesi'r cwricwlwm sy'n cynorthwyo i ddarparu gwybodaeth allweddol a'r wybodaeth allweddol ddiweddaraf am Gwricwlwm Cymru yn y rhanbarth. Bydd y GCA yn trefnu sesiynau briffio rheolaidd gydag arweinwyr dysgu proffesiynol, penaethiaid, cadeiryddion cyrff llywodraethu, partneriaid yn yr awdurdodau lleol a sefydliadau haen ganol i sicrhau cysondeb negeseuon, dealltwriaeth a rolau a chyfrifoldebau priodol mewn meysydd gwaith allweddol.

Bydd pob ysgol yn cael pecyn cymorth pwrpasol sy'n cynorthwyo i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn eu Cynlluniau Datblygu Ysgol (CDY) eu hunain, yn unol â'r lefelau o gymorth y mae ei angen arnynt. Hysbysir y lefelau cymorth gan ganlyniadau'r broses gategoreiddio genedlaethol, canlyniadau arolygon Estyn, a/neu wybodaeth leol. Mae'r model darparu yn cynnwys rhywfaint o hyblygrwydd i ymateb i newidiadau mewn amgylchiadau yn ystod y flwyddyn. Bod tymor, cofnodir y cynnydd a wneir gan ysgolion tuag at gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn eu CDY ac mewn cymhariaeth â'u targedau lleol, a hysbysir yr awdurdodau lleol am hynny.


Gall y GCA gynnig cyngor, cymorth ac arweiniad sy'n symbylu deilliannau gwell mewn ysgolion a lleoliadau, ac mae awdurdodau lleol yn cadw'r cyfrifoldeb statudol am ysgolion a gwella ysgolion. I sicrhau bod gwelliannau parhaus yn digwydd mewn ysgolion, mae'n hanfodol sicrhau bod diwylliant ar gyfer newid (a chydabyddiaeth o hynny) yn cael ei ymgorffori a'u ddeall yn eang ym mhob ysgol, a bod yr holl bartneriaid yn cydweithio, gan gydnabod bod gan bob un ohonynt (yr ysgol, yr ALI a'r GCA) gyfraniad i'w wneud at y gwaith o sicrhau gwelliannau.




Adran 3: Cynllun Busnes 2019/2020

Cyflwyniad

Mae'r Cynllun Busnes hwn (2019/2020) yn disgrifio'r rhaglen o waith sy'n ofynnol i barhau i gyflymu gwelliannau o ran deilliannau plant a phobl ifanc a darpariaeth ar eu cyfer mewn ysgolion a lleoliadau yn Ne Ddwyrain Cymru. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar yr angen i godi dyheadau a chyflymu gwelliannau i ddeilliannau disgyblion, gwella ansawdd addysgu a dysgu, cynorthwyo ysgolion i weithredu Cwricwlwm Cymru a pharhau i ddatblygu'r system hunan-wella o fewn ac ar draws ysgolion a lleoliadau. Mae ystod eang o wybodaeth wedi cael ei hadolygu er mwyn llunio blaenoriaethau'r Cynllun Busnes hwn:



Mae blaenoriaethau Cynllun Busnes y GCA yn dal i gael eu llunio gan ddefnyddio canlyniadau adolygiadau allanol ac ymchwil (a hwylusir trwy grantiau gan Lywodraeth Cymru):



“Mae systemau a phrosesau yn rhagorol. Mae prosesau Cynllunio Busnes yn ymgynghorol ac yn dryloyw. Mae system Hwb yn galluogi cadw data a gwybodaeth mewn un lle ac mae hynny’n lleihau biwrocratiaeth a baich gwaith yn sylweddol, ac ar yr un pryd, mae’n caniatáu cadw cofnod eglur o gamau gweithredu ac effaith. Mae cynlluniau grantiau yn dryloyw ac yn eglur.”

“Mae’r GCA yn croesawu her allanol ac nid yw’n gorffwys ar ei lwyddiant. Mae’n awyddus i ddefnyddio arbenigedd allanol i adolygu ei gynnydd a dysgu gwersi o fannau eraill. Mae adolygiadau allanol gan Brifysgol Metropolitan Manceinion, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, yr Athro Mick Waters ac eraill wedi cynorthwyo’r GCA i fod yn flaengar a meddwl yn strategol am ragor o welliannau.”

Dr. Steve Munby: Adolygiad o arferion presennol a chyfeiriad teithio’r GCA (Hydref 2019)

Sut mae’r GCA wedi hysbysu ei bartneriaid yn yr awdurdodau lleol am gynnydd ac effaith y Cynllun Busnes blaenorol yn 2019/2020?

Mae strwythur llywodraethu’r GCA yn sicrhau’n rheolaidd bod y GCA yn atebol, ac mae awdurdodau lleol yn cael eu cynrychioli ym mhob grŵp, gan gynnwys y Grŵp Gweithredol ar y Cyd, Bwrdd Cwmni’r GCA a Phwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risgiau’r GCA. Trwy gydol 2019/20, cafodd y grwpiau hyn adroddiadau rheolaidd am effaith yn ymwneud â chynnydd y Cynllun Busnes. Bydd yr adroddiadau hyn hefyd yn cael eu darparu’n brydlon i bob awdurdod lleol i alluogi swyddogion yr awdurdodau lleol hynny i sicrhau bod yr holl aelodau etholedig yn cael eu hysbysu’n llawn am effaith gwaith y GCA.

Mae’r rhain yn cynnwys: adroddiadau am ddeilliannau a chynnydd disgyblion (yn cynnwys dysgwyr agored i niwed), cynnydd ysgolion sy’n achosi pryder, diweddariadau rheolaidd am weithgarwch hunan-arfarnu rhanbarthol/awdurdodau lleol a strategaethau rhanbarthol, adborth o adolygiadau allanol, adroddiad blynyddol y rhanbarth ynghylch gwerth am arian, Adroddiad Blynyddol y Rheolwr Gyfarwyddwr, a chanlyniadau arolygon o ysgolion a chyrrff llywodraethu yn y rhanbarth.

Cynhaliwyd cyfarfodydd sicrhau ansawdd rheolaidd rhwng Cyfarwyddwyr Addysg yr awdurdodau lleol ac uwch swyddogion y GCA i drafod ansawdd y gwasanaeth a ddarperir gan y GCA a chyflymder cynnydd ysgolion sy’n achosi pryder. Mae’r cyfarfodydd hyn yn ddull effeithiol sy’n galluogi llinellau atebolrwydd a chyfathrebu clir i sicrhau fod pawb yn gweithredu’n brydlon.

Yn ychwanegol, bydd pob awdurdod lleol yn cael trosolygon bob tymor sy’n cynnwys manylion effaith darpariaeth cymorth a dysgu proffesiynol y GCA ar ysgolion a’u cyfranogiad yn hynny. Mae’r holl wybodaeth a roddir i bob ysgol am effaith gwaith y GCA yn rhy sylweddol i’w gynnwys yn y cynllun hwn, ond mae ar gael yn y dogfennau a grybwyllir uchod ac yn y dogfennau ategol y cyfeirir atynt ar ddiwedd y cynllun hwn.

Ffeithiau a ffigurau allweddol 2019/2020

Mae'r ffeithiau a'r ffigurau dilynol yn cynnig cipolwg ar rai o llwyddiannau 2019/2020:

Teimlai **90%** o'r ysgolion fod rôl y GCA yn glir, a bod y weledigaeth ar gyfer gwella ysgolion yn glir.

Wedi dylunio a datblygu pecyn cymorth cynllunio grantiau gyda **100%** o ymgysylltiad gan yr ysgolion. Bydd hyn yn sicrhau tryloywder wrth ddyrannu grantiau.

6,172 o ddilynwyr ar Twitter yn galluogi cyfathrebu effeithiol ag ysgolion, llywodraethwyr a gweithwyr proffesiynol eraill ym myd addysg.

Mae **52** o benaethiaid sydd mewn swydd pennaeth ar hyn o bryd yn cyflawni rôl Cynghorwyr Her drwy ddefnyddio cymorth diweddar a pherthnasol.

Cyfradd ddirprwyo **94%** i ysgolion = £45.92M fel bo modd datblygu'r system hunanwella ymhellach.

Aeth **87%** o ddysgwyr Seren i Rydychen neu Gaergrawnt neu i brifysgolion Ymddiriedolaeth Sutton, ar ôl cymryd rhan yn effeithiol yn y rhaglen.

Mae **44** o Gynorthwyr Addysgu Lefel Uwch wedi ennill y cymhwyster ar gyfradd llwyddo o 95%, gan gynyddu capasiti mewn ysgolion.

52 o ysgolion yn cymryd rhan yng nghyfarfodydd y rhwydwaith mwy galluog a thalentog er mwyn gwella'r gwaith o siapio polisiau ac ymarfer yn yr ysgol.

Mae **69** o ysgolion o fewn y rhanbarth yn darparu cymorth i ysgolion eraill ar draws y rhanbarth gan rannu arfer gorau o ran addysgu ac arweinyddiaeth.

Mae gan **bob** ysgol uwchradd arweinydd a ariennir yn rhannol ar gyfer dysgwyr agored i niwed, ac wedi cynnal eu prosiectau ymchwil eu hunain yn yr ysgol i sicrhau deilliannau gwell i ddysgwyr agored i niwed.

Mae **208** o ANGAu wedi llwyddo gwblhau cwrs ymsefydlu ar draws y rhanbarth, gan feithrin gallu o fewn y gweithlu addysgu cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

Mae modelau gwaith cymheiriad yn parhau i gael eu datblygu ym mron bob un o'r ysgolion uwchradd gan alluogi arweinwyr i ganolbwyntio ar addysg.

Derbyniodd **92%** o ysgolion a lleoliadau hyfforddiant ymwybyddiaeth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod, a nododd 1707 o athrawon fod yr hyfforddiant wedi llwyio a gwella eu darpariaeth o fewn yr ystafell ddosbarth.

Cymerodd yr **holl** ysgolion ran yn y cynnig rhanbarthol i gefnogi cwricwlwm Cymru, gan sicrhau y byddant mewn sefyllfa dda ar gyfer y cam datblygu nesaf.

Mae **1111** o gyfleoedd dysgu proffesiynol wedi cael eu cynnig i gefnogi gweithrediad y safonau dysgu ac addysgu.

Mae **194** o ysgolion wedi defnyddio'r porthol Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu i'w helpu i ddatblygu'n sefydliadau sy'n dysgu.

Rhwng 2017/2018 a 2018/2019, bu cynnydd o **11%** o leiaf yn yr ysgolion y barnwyd eu bod yn dda neu'n rhagorol ym mhob un o'r 5 maes arolygu.

Llwyddodd **29** o ymgeiswyr NPQH i ennill y cymhwyster - cyfradd llwyddo o 74% sy'n meithrin arweinwyr ar draws y rhanbarth.

Cwblhaodd **221** o ddysgwyr Raglen Seren yn 2018, ac fe gafwyd cynnydd i'r ffigur hwn yn 2019 pan gymerodd 285 o ddysgwyr ran yn y Rhaglen.

Mae cyfanswm yr ysgolion sydd angen y lefelau uchaf o gymorth yn parhau i **ostwng, yn enwedig yn y cyfnod sylfaen.**

Derbyniodd **35** o ysgolion Grant Sefydliad Seren i wella'r ddarpariaeth i ddysgwyr mwy galluog yng nghyfnod allweddol 3.

Mae cynlluniau Grant Amddfadedd Disgyblion yr **holl** ysgolion uwchradd wedi'u cytuno drwy baneli proffesiynol lle mae gweithgareddau nad ydynt wedi cael rhyw lawer o effaith ar gynnydd dysgwyr wedi cael eu herio.


Mae **156** o rwydweithiau hunanddewisol o ysgolion yn cydweithio o fewn ac ar draws awdurdodau lleol ar flaenoriaethau gwella cyffredin.

Mae **holl** gynlluniau'r Grant Amddfadedd Disgyblion yn gysylltiedig ag ymddiriedolaeth Sutton Pecyn cymorth fel bo modd gwneud y defnydd gorau posib o adnoddau er mwyn i ddysgwyr wneud cynnydd.

1588 o gyfarfodydd corff llywodraethu wedi'u clercio; **615** o lywodraethwyr yn bresennol mewn cyfleoedd dysgu proffesiynol a 114 o sesiynau ymsefydlu ar-lein ychwanegol

O ganlyniad i hunanwerthusiad mewnol, mae angen inni weithio gydag awdurdodau lleol ac ysgolion i:

Sicrhau bod ysgolion sydd angen y lefelau uchaf o gymorth ac/neu sydd mewn Categoriâu Statudol yn sicrhau gwelliant o fewn graddfa amser dderbyniol (o fewn 2 flynedd) i leihau eu lefel cymorth a chael/neu gael eu tynnu o gategori statudol.



Mynd ati i wella ansawdd dysgu ac addysgu, gan gynnwys meithrin sgiliau, mewn ysgolion uwchradd a nodir er mwyn sicrhau cynnydd a deilliannau gwell, ac ymgysylltiad gwell mewn dysgu ymhlith dysgwyr, yn enwedig ymhlith dysgwyr agored i niwed.

Cynnig ymyrraeth, her, cefnogaeth a chyfleoedd effeithiol i feithrin gallu. Parhau i fod yn glir ynghylch y terfynau isaf ar gyfer ymyrraeth a pharhau i wrthod cyfaddawdu pan fydd plant yn colli'r cyfle i gael addysg dda. Gan amlaf, dylid canolbwyntio ar feithrin gallu.

Datblygu fframwaith rheoli talentau ac arweinyddiaeth sy'n canolbwyntio ar ddatblygu arweinyddwyr canol mewn ysgolion a chlystyrau unigol yn hytrach nag ar gohortau cymysg.

Gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i gynorthwyo arweinyddwyr ysgol i fynd i'r afael, fel bo'n briodol, â'r camau sydd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth Cymraeg mewn Addysg a Chymraeg 2040; Strategaeth y Gymraeg.

Parhau i feithrin gallu cyrff llywodraethu o fewn y rhanbarth drwy ddiwygio'r model darparu ar gyfer hyfforddi llywodraethwyr, gan alinio â'r model clwstwr, a darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol wedi'u dylunio'n arbennig i gyrff llywodraethu uwchradd i'w galluogi i gyflawni eu rolau'n effeithiol.

Cryfhau'r trefniadau llywodraethu eto drwy benodi cyfarwyddwyr anweithredol o ansawdd uchel a all gyfrannu arbenigedd ychwanegol a her allanol annibynnol.

Ystyried dull mwy strategol o nodi'r grŵp nesaf o benaethiaid yn y rhanbarth. Datblygu rôl y brifathrawiaeth weithredol ymhellach er mwyn i'r arweinyddwyr gorau allu creu effaith mewn mwy nag un ysgol.

Cadw'r bar yn uchel ar gyfer nodi pwy a all roi cymorth i ysgolion eraill, gan barhau i ganolbwyntio ar ansawdd ac ar sicrhau diwydrwydd dyladwy a broceru'r gorau o'r rhanbarth a thu hwnt.

O ganlyniad i hunanwerthusiad mewnol, mae angen inni weithio gydag awdurdodau lleol ac ysgolion i:

Parhau i ddatblygu modelau adolygiad cymheiriad wedi'u teltwra'n arbennig a'u harwain gan yr ysgol sy'n canolbwyntio ar wella ansawdd y dysgu a'r addysgu, ac sy'n meithrin cefnogaeth a her ddiwyochrog a chydfuddiol rhwng cymheiriad, er mwyn sicrhau lefelau uwch o ragoriaeth ar draws ysgolion.



Parhau i fod yn glir ynghylch rôl y GCA yn gysylltiedig â'r agenda llesiant a thegwch. Parhau i hyrwyddo ac integreiddio'r gwaith, a pharhau i ganolbwyntio ar flaenoriaethau'r GCA.



Datblygu ystod ehangach o strategaethau gwerthuso nad ydynt yn canolbwyntio ar ddeilliannau diwedd cyfnod allweddol yn unig, ond sy'n edrych ar ystod o ymddygiadau dysgu ac addysgu a fyddai'n cael eu hystyried fel canlyniad i strategaeth cymorth neu ymyrraeth.



Parhau i hyrwyddo cynllunio olyniaeth o fewn y GCA, ac i rymuso'r tîm arwain ehangach, yn enwedig o ran ymwneud â llywodraethu a llunio adroddiadau strategol.

O ganlyniad i hunanwerthuso mewnol, mae angen inni weithio gyda rhanbarthau eraill, Llywodraeth Cymru a phartneriaid haen ganol i:

Sicrhau bod cwricwlwm Cymru yn cael ei weithredu'n effeithiol ym mhob ysgol a lleoliad. Cymryd rhan mewn ymgynoriadau sy'n cefnogi'r agenda ddiwygio.



Cymryd rhan mewn dwy raglen beilot ar gyfer ysgolion sy'n destun pryder a gweithredu'r Adnodd Cenedlaethol ar gyfer Gwella Ysgolion.

Dylunio a chyflwyno dysgu proffesiynol cenedlaethol.


Sicrhau bod aelodau etholedig yn gwybod am yr holl newidiadau i drefniadau atebolrwydd.

Sicrhau model cyllid grant 3 blynedd dangosol.


Blaenoriaethau strategol addysg awdurdodau lleol 2020/21 (darparwyd hwy gan bob awdurdod lleol)


Mae'r Cynllun Busnes hwn yn ymdrin â phob un o flaenoriaethau strategol yr awdurdodau lleol sydd wedi'u dynodi â *. Cwmpasir y blaenoriaethu hyn gan gylch gorchwyl y GCA. Bydd y GCA hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â'r ALL i gynorthwyo i gyflawni blaenoriaethau lleol ychwanegol, pan fo hynny'n briodol.


Mae'r gwelliannau gofynnol ar lefel y rhanbarth ac ar lefel awdurdodau lleol yn golygu bod angen ymrwymiad cryf i waith partneriaeth i sicrhau llwyddiant. Ble mae awdurdodau lleol a'r GCA yn cydweithio'n agos, ceir tystiolaeth, yn enwedig yn achos ysgolion sy'n achosi pryder, y gellir sicrhau gwelliannau cyflym a chynaliadwy mewn ysgolion.

Awdurdod Lleol	Blaenoriaethau Strategol 2020/2021	Prif gysylltiad(au) â meysydd gwella yn y Cynllun Busnes
Blaenau Gwent 	Cyflymu sgiliau caffael iaith cynnar rhwng 3 a 7 mlwydd oed.*	1, 2 a 3
	Cynyddu cynnydd gwerth ychwanegol ym meysydd Saesneg a mathemateg rhwng Cyfnodau Allweddol 2 a 3 ac yn enwedig rhwng Cyfnodau Allweddol 2 a 4.*	1, 2 a 3
	Cynyddu cyrhaeddiad ym meysydd Saesneg a mathemateg yng Nghyfnod Allweddol 3 ar Lefel 6+.*	1, 2 a 3
	Gwella cyrhaeddiad ym meysydd Saesneg a mathemateg (mathemateg yn benodol) ar lefel 2 yng Nghyfnod Allweddol 4.*	1, 2 a 3
	Gwella cynnydd gwerth ychwanegol ar gyfer ein dysgwyr mwyaf agored i niwed, yn enwedig rhwng Cyfnodau Allweddol 3 a 4.*	1, 2 a 3


Awdurdod Lleol	Blaenoriaethau Strategol 2020/2021	Prif gysylltiad(au) â meysydd gwella yn y Cynllun Busnes
----------------	------------------------------------	--

<p>Caerffili</p> 	Gwella canlyniadau yng Nghyfnod Allweddol 4, â ffocws penodol ar safonau ym maes Saesneg (iaith) a mesurau Cap 9.*	1, 2 a 3
	Parhau i wella ansawdd arweinyddiaeth ar draws pob cyfnod addysg.*	1 a 3
	Cynyddu nifer y disgyblion sy'n cyflawni 3 A-A* yng Nghyfnod Allweddol 5.*	1 a 3
	Gwella cyrhaeddiad a chynnydd dysgwyr agored i niwed ar draws pob cyfnod addysg, â ffocws penodol ar ddisgyblion mwy abl a thalentog sy'n cael prydau ysgol am ddim.*	2
	Parhau i wella gallu disgyblion i gaffael sgiliau cymhwysedd digidol.*	1 a 3

<p>Sir Fynwy</p> 	Cryfhau arweinyddiaeth a chpasiti addysgu a dysgu mewn ysgolion penodedig i sicrhau fod yr holl ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol o'u manau cychwyn.*	1, 2 a 3
	Gwella deilliannau'r holl ddisgwyr agored i niwed, yn enwedig y rhai sy'n gymwys i gael PYDd, yn y cyfnodau uwchradd (Cyfnodau Allweddol 3 a 4), ac ar y lefelau uwch. *	1, 2 a 3
	Lleihau amrywiant o ran deilliannau rhwng ysgolion ac adrannau, yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol 4.*	1, 2 a 3
	Cydweithio â'r holl randdeiliaid i helpu i ddatblygu dulliau effeithiol i gynorthwyo i leihau nifer y gwaharddiadau.	2

<p>Casnewydd</p> 	Gwella darpariaeth a deilliannau ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys i gael PYDd yn yr holl gyfnodau allweddol.*	1, 2 a 3
	Lleihau amrywiant o ran deilliannau, addysgu ac arweinyddiaeth, yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol 4.*	1, 2 a 3
	Sicrhau ymagwedd gyson at ddarpariaeth ADY, yn unol â gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 trwy weithredu Fframwaith Adolygu Arweinyddiaeth/ADY gan gydweithredu â gwasanaethau cynhwysiant yr Awdurdod Lleol.	2
	Lleihau absenoldeb cyson, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, ac felly gwella presenoldeb mewn ysgolion uwchradd.	2

Awdurdod Lleol	Blaenoriaethau Strategol 2020/2021	Prif gysylltiad(au) â meysydd gwella yn y Cynllun Busnes
----------------	------------------------------------	--

<p>Torfaen</p> 	<p>Gwella'r cynnydd a wneir gan ddisgyblion sy'n gymwys i gael PYDd yn yr holl gyfnodau allweddol, yn enwedig Cyfnod Allweddol 4, trwy sicrhau fod gwasanaethau Awdurdodau Lleol yn cyfrannu at ddarpariaeth ranbarthol ac yn ategu hynny.*</p>	1, 2 a 3
	<p>Sicrhau bod gan holl ysgolion Torfaen strategaeth glir i wella ansawdd addysgu a dysgu, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, i leihau amrywiant o fewn ysgolion, er mwyn sicrhau y bydd pob disgybl, gan gynnwys bechgyn a dysgwyr agored i niwed, yn gwneud cynnydd priodol dros amser.*</p>	1, 2 a 3
	<p>Lleihau lefel yr amrywiant o ran ansawdd ac effaith arweinyddiaeth ar bob lefel mewn ysgolion uwchradd yn yr awdurdod i sicrhau deilliannau da a pharhaus ar gyfer disgyblion.*</p>	1, 2 a 3

Mae pob maes gwella yn y cynllun hwn yn cynnwys pwyslais penodol ar waith y GCA i symbylu deilliannau gwell ar gyfer dysgwyr agored i niwed, yn enwedig y rhai sy'n cael PYDd a chamau penodol sy'n cael eu gweithredu i wella ysgolion uwchradd.

Mae'r strategaethau hyn yn seiliedig ar ystod eang o dystiolaeth ymchwil. Bydd yn bwysig bod gan yr holl randdeiliaid eraill, yn cynnwys ysgolion ac awdurdodau lleol, eu strategaethau penodol eu hunain i ategu a symbylu deilliannau gwell i ddysgwyr. Bydd y GCA yn ymdrechu, fel y bo'n briodol ac o fewn yr adnoddau sydd ar gael, i gynorthwyo i sicrhau bod cynlluniau strategol awdurdodau lleol yn mwyafu'r effaith ar ddeilliannau dysgwyr.

Cynllun Busnes y GCA, 2020/2021

Mae'r camau a nodir isod wedi'u datblygu trwy gydweithredu â'n partneriaid allweddol, ac maent yn gysylltiedig â blaenoriaethau strategol pob awdurdod lleol. Maent yn cynrychioli'r blaenoriaethau allweddol i'w cyflawni gan y rhanbarth yn 2020/21. Fodd bynnag, nid ydynt yn hollgynhwysol, ac rydym ni'n cydnabod pwysigrwydd parhau i ddarparu ein busnes craidd gan sicrhau safonau uchel wrth wneud hynny. Ategir y camau gweithredu hyn gan arlwy dysgu proffesiynol rhanbarthol ar gyfer staff a llywodraethwyr ysgolion.

Maes Gwella 1	<p>i) Datblygu proffesiwn addysg o ansawdd uchel</p> <p>ii) Arweinyddion ysbrydolgar yn cydweithredu i wella safonau</p> <ul style="list-style-type: none">• Datblygu'r holl staff a'r arweinwyr fel bod ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau priodol i wneud eu gwaith yn effeithiol er mwyn sicrhau y bydd disgyblion yn gwneud cynnydd da dros amser.• Datblygu arweinwyr a rhoi cyfle iddynt ddysgu gydag arweinwyr eraill ac oddi wrthynt.
Beth fydd y GCA yn ei wneud?	
<p>Sicrhau ansawdd ac effaith yr holl ddysgu proffesiynol</p> <ul style="list-style-type: none">• Parhau i roi canllawiau i ysgolion i'w cynorthwyo i gwblhau, cyhoeddi a gwerthuso effaith eu Cynllun Dysgu Proffesiynol.• Cynnal peilot o'r model rhanbarthol o sicrhau ansawdd yr holl ddysgu proffesiynol, er mwyn cofnodi'r effaith. <p>Cwricwlwm Cymru</p> <ul style="list-style-type: none">• Sicrhau bod pob ysgol yn cael mynediad at y rhaglenni dysgu proffesiynol ar gyfer yr holl staff, i gynorthwyo i weithredu cwricwlwm Cymru. Caiff hyn ei ddarparu ar y cyd ag ysgolion arloesi ac ysgolion dysgu proffesiynol yn y rhanbarth.• Sicrhau bod ysgolion yn cael enghreifftiau o gamau datblygu ysgolion effeithiol ynghylch diwygio'r cwricwlwm, a chynorthwyo ysgolion i weithredu'r rhain.• Annog pob ysgol i gael eu hysbysu gan ymchwil trwy greu rhwydwaith o ymholwyr arweiniol o ysgolion dysgu proffesiynol i ddatblygu'r gallu i gynnal ymholi proffesiynol ym mhob ysgol.• Defnyddio deilliannau ymweliadau ymgysylltu Estyn i gynorthwyo i ddatblygu set o ddisgwyliadau cyffredin yn ymwneud â gweithredu Cwricwlwm Cymru.• Adolygu strategaeth y Gymraeg yn y rhanbarth ar y cyd ag arweinwyr ysgolion a phartneriaid eraill, gan ystyried y canfyddiadau ym modelau darparu'r dyfodol. <p>Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu</p> <ul style="list-style-type: none">• Llunio a hwyluso dysgu proffesiynol sy'n annog ysgolion i ddatblygu fel sefydliadau sy'n dysgu effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys amrywiaeth o dulliau megis e-ddysgu, cydweithio rhwng ysgolion ac ymchwil.• Darparu rhaglen gydgyssylltiedig o gymorth i sicrhau fod pob ysgol yn datblygu fel sefydliadau sy'n dysgu effeithiol e.e. sut i ddefnyddio'r arolwg i hysbysu blaenoriaethau datblygu ysgolion.• Cynorthwyo gweddill yr ysgolion sydd heb gyfranogi yn yr arolwg o ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu hyd yn hyn.• Rhannu astudiaethau achos ynghylch ysgolion a chlystyrau sy'n datblygu'n effeithiol fel sefydliadau sy'n dysgu.• Darparu cymorth ac arweiniad i ysgolion ynghylch sut i ddefnyddio'r arolwg o ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu i hysbysu blaenoriaethau datblygu ysgolion.	

Addysgu a Dysgu

- Nodi a rhannu strategaethau addysgu a dysgu effeithiol ar lefel yr ysgol gyfan, o'r rhanbarth a thu hwnt, i gynyddu disgywiliadau ynghylch cyflawni deilliannau rhagorol i ddysgwyr.
- Cynorthwyo ysgolion i ddefnyddio amrywiaeth o dystiolaeth uniongyrchol i wella ansawdd addysgu a dysgu trwy ddull gweithredu sy'n cynnwys modelu, rhannu a rhoi arweiniad.
- Nodi arweinwyr, athrawon a chynorthwywyr addysgu effeithiol o bob cwr o'r rhanbarth ac o bob cyfnod addysg a chydweithio â hwy i rannu arferion gorau sy'n cofnodi cynnydd dysgwyr. Bydd hyn yn cynnwys datblygu adnodd ar-lein rhanbarthol yn cynnwys gwaith disgyblion, portffolios, clipiau fideo o athrawon, dysgwyr ac arweinwyr.
- Darparu amrywiaeth o fodolau cyflawni a mynediad at ystod eang o ddysgu proffesiynol ar draws pob maes dysgu i gynorthwyo ysgolion i wella ansawdd addysgu a dysgu, yn y rhanbarth a thu hwnt.
- Trwy gyfrwng dysgu proffesiynol cynlluniedig, rhannu enghreifftiau llwyddiannus o ddarpariaeth, addysgu a chymhwyso sgiliau sy'n dangos tystiolaeth o gynnydd disgyblion ar draws pob cyfnod allweddol, yn y rhanbarth a rhu hwnt.
- Parhau i gydweithio â phartneriaid allweddol, yn cynnwys Llywodraeth Cymru a Sefydliadau Addysg Uwch, i gynnig rhaglen o ddysgu proffesiynol a datblygu medrau staff yn y Gymraeg.

Dysgu proffesiynol ar gyfer cynorthwywyr addysgu

- Darparu arlwy dysgu proffesiynol i gynorthwyo cynorthwywyr addysgu, pa un ai a ydynt newydd gychwyn gwneud y gwaith, yn gynorthwywyr addysgu wrth eu gwaith, neu'n gynorthwywyr addysgu lefel uwch profiadol.

Dysgu Proffesiynol yn ystod y cyfnod sefydlu statudol

- Parhau i fireinio a datblygu'r cymorth yn ystod cyfnod sefydlu Athrawon sydd Newydd Gymhwyso, yn cynnwys rôl y mentor sefydlu yn yr ysgol, rôl y dilysydd allanol a'r cymorth a ddarperir wedi'r cyfnod sefydlu statudol. Cryfhau cydweithio â sefydliadau Addysg Uwch i gynnig cymorth ar y cyd yn ystod y cyfnod sefydlu ar ddechrau gyrfa.

Addysg Gychwynnol i Athrawon

- Parhau i gydweithio â phartneriaid addysg uwch, partneriaid traws-ranbarthol ac ysgolion i ddatblygu a darparu'r holl lwybrau tuag at addysg gychwynnol i athrawon.

Arweinwyr ysbrydolgar yn cydweithredu i godi safonau

Arlwy dysgu proffesiynol ar gyfer arweinwyr

- Cydweithio â sefydliadau addysg uwch/rhanbarthau eraill i ddarparu arlwy dysgu proffesiynol i gynorthwyo arweinwyr ar bob lefel ym mhob ysgol a lleoliad, trwy gyfrwng ystod o raglenni a gymeradwyir ar y lefel genedlaethol: arweinwyr canol, uwch arweinwyr, darpar benaethiaid/paratoi at CPCP, CPCP, penaethiaid newydd a dros dro, penaethiaid profiadol.
- Cydweithio ag awdurdodau lleol i gynorthwyo arweinwyr ysgolion, fel y bo'n briodol, i ymateb i gamau gweithredu Strategaeth y Gymraeg mewn Addysg a Cymraeg 2040: Strategaeth y Gymraeg.

Nodi, recriwtio a chadw arweinwyr effeithiol

- Nodi darpar arweinwyr a sicrhau eu bod yn cael cyfleoedd dysgu proffesiynol pwrrpasol ac amrywiaeth o brofiadau arweinyddiaeth sy'n eu cynorthwyo i ddatblygu eu taith dysgu proffesiynol unigol, yn enwedig yn y sectorau cyfrwng Cymraeg ac uwchradd.
- Cydweithio ag awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu i ystyried ystod o fodolau arweinyddiaeth e.e. Prifathrawiaeth Weithredol
- Bydd arbenigwyr Adnoddau Dynol yn y rhanbarth yn cydweithio ag awdurdodau lleol i adolygu a diwygio prosesau recriwtio uwch arweinwyr i gynnwys defnyddio gwerthusiadau gan amrywiaeth o randdeiliaid a chyfleoedd dysgu proffesiynol i aelodau panelau penodi.

- Trwy gydweithredu â rhanbarthau eraill a sefydliadau addysg uwch, darparu rhaglen mentora a chymhell i ddatblygu a chynorthwyo arweinwyr a llywodraethwyr ysgolion.

Llywodraethwyr fel arweinwyr

- Adolygu a mireinio'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth Clercio a ddarperir gan y Gwasanaeth Cefnogi Llywodraethwyr, i sicrhau bod hynny'n cynorthwyo i gynnal llywodraethu effeithiol.
- Diwygio a mireinio'r model o ddarparu dysgu proffesiynol (heb gynnwys yr hyfforddiant gorfodol) i lywodraethwyr gan ddefnyddio'r dull 'hyfforddi'r hyfforddwyr' mewn clystyrau.
- Parhau i ddatblygu adnoddau ar-lein i lywodraethwyr, yn cynnwys adnoddau i gynorthwyo â hunan-arfarnu.
- Darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol cydweithredol ar gyfer arweinwyr a llywodraethwyr ysgolion.
- Nodi llywodraethwyr a all ymgymryd ag ystod o rolau yn eu hysgol eu hunain a thu hwnt, gan ddarparu dysgu proffesiynol pwrpasol i gryfhau a datblygu gallu yn y rhanbarth.
- Archwilio ac annog trefniadau cynorthwyo cymheiriaid i gyrrff llywodraethu i sicrhau gwelliant.

Cymorth arbenigol ynghylch Adnoddau Dynol

- Cydweithio ag awdurdodau lleol i ategu gwasanaethau presennol.
- Darparu dysgu proffesiynol arbenigol ym maes Adnoddau Dynol ar gyfer arweinwyr ysgolion, yn cynnwys gweithredu'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinwyr a rheoli perfformiad.

Cymorth wedi'i dargedu ar gyfer y cyfnod uwchradd (yn ogystal â'r uchod)

- Diwygio a mireinio'r model presennol ar gyfer datblygu strategaethau addysgu a dysgu mewn ysgolion penodedig, a defnyddio'r deilliannau i ymgysylltu â cohort ychwanegol o ysgolion uwchradd.
- Parhau i ddarparu amrywiaeth o strategaethau i gynorthwyo ag arweinyddiaeth addysgu a dysgu, e.e. cydweithio rhwng ysgolion, dulliau gweithredu wedi'u hysbysu gan ymchwil.
- Parhau i ddarparu cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion cyrff llywodraethu ysgolion uwchradd, gan ganolbwyntio ar wella ansawdd arweinyddiaeth ac addysgu a dysgu.
- Cynorthwyo ysgolion i archwilio amrywiaeth o fodolau i'w helpu i baratoi at weithredu Cwricwlwm Cymru.
- Diwygio a mireinio cymorth cydgysylltiedig gan Ymgynghorwyr Her ac ynghylch pynciau penodol a dulliau o ddarparu hynny mewn ysgolion penodedig, e.e. y model amser bloc dwys, ymgynghorwyr her a darparu cymorth trwy gydweithio rhwng ysgolion
- Cynorthwyo ysgolion i sicrhau bod llwybrau'r cwricwlwm yn darparu dewis priodol i bob dysgwr.

Ffocws penodol ar wella deilliannau ar Ddysgwyr Agored i Niwed

- Llunio a hwyluso dysgu proffesiynol ar gyfer cynorthwyrwyr addysgu arbenigol, trwy gydweithio ag awdurdodau lleol a lleoliadau
- Diwygio a mireinio'r rhaglen ar gyfer Arweinwyr Dysgwyr Agored i Niwed mewn ysgolion uwchradd, gan rannu arferion effeithiol ar draws clystyrau ac ysgolion cynradd detholedig.
- Llunio a hwyluso adnoddau ar-lein cenedlaethol i ategu'r rhaglen arweinwyr canol ar gyfer arweinwyr MATH a Seren mewn ysgolion.
- Gwerthuso'r ystod bresennol o gyfleoedd cwricwlaidd wedi'u cyfoethogi a ariennir trwy gyfrwng y Grant Datblygu Disgyblion a rhannu arferion gorau ar draws y cyfnod uwchradd.
- Cofnodi arferion gorau ystod o arlwyon cwricwlwm a gaiff eu darparu mewn darpariaethau Unedau Cyfeirio Disgyblion.

Maes Gwella 2

Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwmo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a llesiant

- Darparu cymorth, arweiniad a dysgu proffesiynol ar gyfer ysgolion i sicrhau fod pob dysgwr (yn cynnwys yr holl grwpiau hysbys o ddysgwyr agored i niwed) yn dod i'r ysgol bob dydd, yn cyfranogi'n dda yn eu dysgu, ac yn derbyn cymorth a her priodol mewn amgylcheddau dysgu cefnogol a chynhwysol.

Beth fydd y GCA yn ei wneud?

- Darparu rhaglen o ddysgu proffesiynol trwy gyfrwng dull 'Hyfforddi'r Hyfforddwyr' sy'n darparu sail ar gyfer darpariaeth gyffredinol ar draws pob ysgol a lleoliad. Bydd hyn yn cynnwys datblygu strategaethau a dysgu proffesiynol ynghylch: Dysgwyr sy'n gymwys i gael PYDd, dysgwyr sy'n LAC, dysgwyr y gwyddys eu bod wedi'u mabwysiadu, Gofalwyr Ifanc, Dysgwyr Mwy Galluog a Mwyaf Galluog a'r rhai sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol.
- Ymgorffori Strategaeth Tegwch a Llesiant y rhanbarth (sy'n cwmpasu strategaethau i gynorthwyo pob dysgwr agored i niwed) i ddatblygu gwaith amlasiantaethol ymhellach, i ychwanegu at y ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer pob ysgol a lleoliad.
- Ehangu'r defnydd o dystiolaeth uniongyrchol mewn ysgolion i gynorthwyo â'r cynnydd a wneir gan ddysgwyr agored i niwed a herio hynny.
- Creu adnodd cwricwlwm rhyngweithiol ar-lein sy'n cofnodi'r adnoddau sydd ar gael yn lleol ac yn rhanbarthol i gynorthwyo ysgolion i lunio eu darpariaeth ynghylch lechyd a Llesiant.
- Cyd-lunio rhaglen dysgu proffesiynol mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ynghylch 'Gwella diddordeb ac ymddygiadau dysgwyr wrth ddysgu' ar sail egwyddorion agenda Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs).
- Adolygu ac ehangu'r rhwydwaith o ysgolion sy'n cyfranogi yn y rhaglen 'Codi cyrhaeddiad ieuencid difreintiedig'.
- Gwella llais disgyblion a chyfranogiad disgyblion ar draws y rhanbarth trwy bartneriaeth â'r Rhaglen Llysgenhadon Ysgolion a Llysgenhadon Gwych i ddylanwadu ar flaenoriaethau ysgolion a'r rhanbarth.
- Cyflwyno dull rhanbarthol diwygiedig o wella'r gwaith o fonitro'r Grant Datblygu Disgyblion a'i effaith, yn cynnwys panel proffesiynol a wasanaethir gan swyddogion awdurdodau lleol.
- Gwaith ar y cyd ag awdurdodau lleol i sicrhau bod cynlluniau strategol awdurdodau lleol ynghylch dysgwyr agored i niwed yn cael eu hategu gan y strategaeth ranbarthol.
- Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i ddadansoddi data am bresenoldeb a gwaharddiadau a chynorthwyo arweinwyr ysgolion i rannu arferion effeithiol a gwella deilliannau, fel y bo'n briodol.
- Cynorthwyo Swyddog Trawsnewid y Rhanbarth i ddiweddarau rhanddeiliaid am Ddiwygio ADY a chynorthwyo i lunio rhaglen dysgu proffesiynol i ateb gofynion newidiol Diwygio ADY.
- Parhau i gynorthwyo ysgolion a lleoliadau i gynllunio, monitro ac arfarnu gwariant eu cynllun grantiau. Parhau i roi canllawiau i ysgolion i'w cynorthwyo i gwblhau, cyhoeddi a gwerthuso effaith y Grant Datblygu Disgyblion.

Cymorth wedi'i dargedu ar gyfer y cyfnod uwchradd (yn ogystal â'r uchod)

- Cydweithio â Gyrfa Cymru i lunio rhaglen sy'n cynnig cyngor am yrfaedd i ddysgwyr gan gychwyn pan fyddant yn saith mlwydd oed, i fapio'u llwybrau tuag at y cyrchfannau o'u dewis.
- Ehangu'r rhaglen RADY i gynnwys ysgolion uwchradd penodedig a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo.

Maes Gwella 3

Trefniadau asesu, arfarnu ac atebolrwydd cadarn, yn cynorthwyo system hunan-wella

- Darparu cymorth ar gyfer ysgolion i'w galluogi i ddefnyddio ystod eang o dystiolaeth i asesu'n gywir ble maent ar hyn o bryd, ble maent yn dymuno bod a sut byddant yn cyrraedd yno trwy gyfrwng hunan-wella rheolaidd.

Beth fydd y GCA yn ei wneud?

- Sicrhau fod ysgolion yn cael ystod o ddulliau cymorth wedi'u targedu sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau datblygu ysgolion yn unol â'u lefel cymorth presennol.
- Gweithredu dull y rhanbarth o ymdrin ag ysgolion sy'n achosi pryder mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a Chyfarwyddwyr Esgobaethau, gan gynnwys cyfarfodydd rheolaidd ynghylch ysgolion sy'n achosi pryder a chofrestr y rhanbarth o'r ysgolion hynny i fonitro a chynyddu'r cynnydd a wneir gan ysgolion.
- Os daw pryderon i'r amlwg mewn unrhyw ysgol neu leoliad, bydd y GCA yn rhannu gwybodaeth berthnasol ag awdurdodau lleol a Chyfarwyddwyr Esgobaethau er mwyn hysbysu'r camau nesaf, ac os yn briodol, gall hynny gynnwys y defnydd o bwerau statudol i gyflymu cynnydd.
- Gan gydweithio â phartneriaid allweddol yn cynnwys Estyn, Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac arweinwyr ysgolion, cynnal peilot o ddull o gynorthwyo ysgolion sy'n achosi pryder i nodi cymorth ac ymyriadau priodol ar adegau priodol er mwyn cyflymu cynnydd.
- Ymgorffori strategaeth y rhanbarth ynghylch gosod targedau â ffocws allweddol ar gyd-destun yr ysgol ar lefel leol, a datblygu ymhellach y defnydd o ddata ynghylch cynnydd disgyblion ar lefel yr ysgol yn unol â chanllawiau cenedlaethol.
- Darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer ysgolion, cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol er mwyn deall y newidiadau i drefniadau asesu ac atebolrwydd fel rhan o'r agenda diwygio.
- Cynorthwyo i gynnal peilot o'r Adnodd Gwerthuso a Gwella Cenedlaethol mewn ysgolion penodedig yn y rhanbarth a sicrhau y rhennir gwersi allweddol a ddysgir â phob ysgol a lleoliad.
- Darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol i bob ysgol a lleoliad i symbylu hunan-arfarnu effeithiol, prosesau cynllunio gwelliannau a strategaethau effeithiol ar gyfer asesu ffurfiannol a chrynodol.
- Mynd ati'n ffurfiol i fonitro a gwerthuso ansawdd ac effaith hunan-arfarnu a chynlluniau datblygu ar gyfer pob ysgol a lleoliad i sicrhau gwelliannau o ran cynnydd ac agweddau dysgwyr, ansawdd addysgu a dysgu, ac ansawdd arweinyddiaeth.
- Parhau i ddatblygu dull 'Ysgol ar dudalen' y rhanbarth i sicrhau bod ystod ehangach o wybodaeth yn cael ei defnyddio at ddibenion atebolrwydd sy'n canolbwyntio ar lesiant disgyblion a'u hagweddau at ddysgu, y safonau a gyflawnir a'r cynnydd a wneir gan bob disgybl, yn cynnwys y rhai sy'n perthyn i grwpiau agored i niwed, ansawdd addysgu a dysgu mewn ysgolion a lleoliadau, ac ansawdd arweinyddiaeth.
- Darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol rheolaidd i aelodau etholedig ynghylch sut gallant ddefnyddio'r ystod ehangach hon o wybodaeth am ysgolion i fynd ati'n fwy effeithiol i sicrhau bod ysgolion yn atebol, gan symbylu newid diwylliannol a newid ymddygiad.
- Cynorthwyo a chynghori awdurdodau lleol, fel y bo'n briodol, i gyflawni eu swyddogaethau statudol ynghylch CYSAG a datblygiad Cynlluniau Strategol unigol ynghylch y Gymraeg mewn Addysg.

Cynorthwyo system hunan-wella

- Mireinio dull gweithredu Ysgolion y Rhwydweithiau Dysgu i adlewyrchu blaenoriaethau newydd y gwasanaeth a blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg.

- Mireinio ac ehangu'r modelau o gydweithio rhwng cymheiriaid ar gyfer arweinwyr ysgolion, â ffocws ar wella ansawdd addysgu a dysgu.
- Datblygu rhagor o gyfleoedd i ysgolion ddatblygu rhwydweithiau ymarfer proffesiynol o'u dewis eu hunain, ar sail anghenion gwella cyffredin.
- Comisiynu ystod o adroddiadau ymchwil gwerthusol ynghylch meysydd blaenoriaethol i ddarparu argymhellion i barhau i ddatblygu meysydd allweddol y gwasanaethau a ddarperir.

Cymorth wedi'i dargedu ar gyfer y cyfnod uwchradd (yn ogystal â'r uchod)

- Mireinio ac ehangu'r rhaglen o waith rhwng cymheiriaid i gynnwys arweinwyr canol, er mwyn cynorthwyo ag ystod eang o bynciau ar draws y cwricwlwm yn y cyfnod uwchradd.
- Archwilio systemau allanol a wnaiff gynorthwyo ysgolion i osod targedau, olrhain cynnydd disgyblion, mesur perfformiad gwerth ychwanegol ac ymgysylltu â dysgu.
- Darparu cymorth ac arweiniad i ysgolion i'w galluogi i osod targedau priodol lleol yn unol â blaenoriaethau datblygu ysgolion, gan gynnal y ffocws ar osod targedau ar lefel disgyblion unigol.
- Cynorthwyo ysgolion i ymateb i ymgynghoriadau ynghylch diwygio cymwysterau CA4.
- Cydweithredu ysgolion a sectorau eraill i rannu a dadansoddi data ynghylch canlyniadau a chyrchfannau yng Nghyfnod Allweddol 5 mewn perthynas â phob dysgwr.

Ffocws penodol ar wella deilliannau ar Ddysgwyr Agored i Niwed

- Gwella'r dadansoddiad o ddata ynghylch cynnydd dysgwyr agored i niwed.
- Parhau i fireinio'r system cynllunio grantiau a'r prosesau sydd yn eu lle i gynorthwyo i gynllunio ac adolygu gwariant a gwerthuso effaith hynny yn unol ag ymchwil gan y Sefydliad Gwaddol Addysg.
- Mireinio rôl Ysgolion y Rhwydwaith Dysgu Llesiant a Thegwch i sicrhau mwy o ffocws ar faes gwaith.
- Parhau i gynnal cyfarfodydd i drafod grantiau gyda'r partneriaid yn yr awdurdodau lleol i roi sylw i ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr agored i niwed a'u cynnydd.

Maes Gwella 4

Datblygu Busnes y GCA

- Datblygu systemau a phrosesau sy'n galluogi'r cwmni i gynorthwyo ysgolion a lleoliadau yn effeithiol ac yn effeithlon, gan symbylu deilliannau gwell i ddisgyblion.
- Datblygu gweithlu sy'n ymgorffori gwerthoedd craidd a chenhadaeth y GCA.
- Sicrhau fod y GCA yn cyd-fynd â gofynion deddfwriaeth.

Beth fydd y GCA yn ei wneud?

- Parhau i fireinio model busnes y GCA i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol ac yn ymdrin â hwy.
- Cydweithio â phartneriaid allweddol i gyflawni model ariannu mwy cynaliadwy sy'n cyd-fynd â chynllun y gweithlu ac yn sicrhau Cytundeb Cydweithredu ac Aelodau diweddaredig.
- Cynnal gweithlu o ansawdd uchel sy'n gryf ei gymhelliant, yn hyblyg a gwybodus iawn, sy'n cynrychioli ei gwerthoedd a'n gweledigaeth.
- Sefydlu prosesau rheoli perfformiad ac ehangu'r cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer staff sy'n diwallu anghenion unigolion ac anghenion gwasanaethau.
- Sicrhau effeithlonrwydd bwrdd y cwmni a'r pwyllgor archwilio a sicrwydd risgiau, trwy gyfrwng dysgu proffesiynol priodol.
- Parhau i ddatblygu adnodd mapio grantiau'r rhanbarth i sicrhau y gellir dadansoddi data, cofnodi effaith a darparu gwerth am arian yn fwy effeithiol a mwy effeithlon ar lefelau ysgolion, yr ALL a'r rhanbarth.
- Parhau i gyhoeddi manylion dyraniadau grantiau'r rhanbarth a mwyafu'r cyfraddau a ddirprwyir i ysgolion.
- Sicrhau fod systemau a phrosesau yn eu lle i alluogi cyflawni'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth Cefnogi Llywodraethwyr yn effeithiol.
- Mireinio'r model gwerth am arian, ac archwilio mynediad at ddata cymharol ymhellach.
- Gwella'r defnydd o brosesau hunan-arfarnu i sicrhau fod ein gwaith yn dylanwadu ar wella deilliannau, darpariaeth ac arweinyddiaeth.
- Sicrhau fod data cywir ynghylch perfformiad a gwybodaeth ehangach yn cael eu darparu'n effeithiol i gynorthwyo i sicrhau hunan-arfarnu a darparu gwasanaethau effeithlon.
- Mireinio a gwella'r strategaeth cyfathrebu a marchnata i sicrhau cyfranogiad priodol gan randdeiliaid, yn cynnwys datblygu fforwm rhanbarthol i ddisgyblion.
- Parhau i ymgysylltu â chonsortia eraill a sefydliadau haen ganol megis Estyn i sicrhau arbedion effeithlonrwydd wrth ddatblygu a chyflawni rhaglenni.

Gan weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau, dyma'r uchelgeisiau ar gyfer 2020/21 ac wedi hynny:

At ei gilydd, mae nifer yr ysgolion sydd angen y lefelau uchaf o gymorth yn parhau i ostwng, a phan fydd ysgol yn cael ei lleoli mewn categori statudol, bydd yn cael ei thynnu o'r categori o fewn terfyn amser derbynol y cytunir arno â'r ALL.

Drwy hunanwerthuso mae llawer o ysgolion yn gwneud cynnydd da tuag at gyrraedd y cerrig milltir mewn dogfennau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol er mwyn gwireddu cwricwlwm newydd Cymru.

Mae bron bob ysgol uwchradd wedi cymryd rhan yn y rhaglen i ddatblygu sgiliau ar draws y cwricwlwm ac wedi gwella eu darpariaeth o ganlyniad i hynny, gyda'r effaith i'w gweld mewn ystod o dystiolaeth uniongyrchol.

Mae bron yr holl ysgolion yn sicrhau'r perfformiad gorau ar gyfer Capio 9 drwy ganolbwyntio ar ehangder ac ansawdd y ddarpariaeth i'r holl ddysgwyr. Mae mwyafrif yr ysgolion yn perfformio'n unol â deilliannau wedi'u modelu, ar sail cymhwysra Prydain Ysgol Am Ddim.

Mae modelau adolygu cymheiriad wedi'u teilwra'n arbennig a'u harwain gan yr ysgol yn dangos effaith gwella ansawdd y dysgu a'r addysgu yn yr ysgolion a nodir.

Bydd pob ysgol sy'n destun pryder yn cael ei dwyn i gyfrif am gyflymder ei chynnydd, ac os yw'r cynnydd hwnnw'n rhy araf cymerir camau priodol neu rhoddir cyngor yn brydlon.

Bydd model diwygiedig yr ysgolion rhwydwaith dysgu yn cael ei weithredu drwy ganolbwyntio ar ansawdd ac ar sicrhau diwydrwydd dylaodwy a broceru'r gorau oddi mewn i'r rhanbarth a thu hwnt.

Bydd y model ar gyfer darparu hyfforddiant i lywodraethwyr y cael ei adolygu a'i ddiwygio gan alluogi mwy o lywodraethwyr i dderbyn cyfleoedd dysgu proffesiynol ar sail chwstwr.

Bydd rhaglen dysgu proffesiynol ranbarthol a fframwaith rheoli talent yn cael eu gweithredu gan alluogi dull mwy strategol o nodi, datblygu a chadw anweinwyr o ansawdd da yn y rhanbarth.

Bydd trefniadau llywodraethu'r GCA yn cael eu cryfhau drwy benodi cyfarwyddwyr anweithredol ychwanegol i ehangu a chydbwysu'r sgiliau ar fwrdd y cwmni.

Bydd gan fwyafrif Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion llywodraethwyr y cyfnod uwchradd fwy o allu i gefnogi a herio cyflymder gwelliannau o fewn eu hysgolion.

Ceir trefniadau gwell i gynllunio olyniaeth o fewn tîm arwain ehangach y GCA gydag aelodau'r tîm yn cael eu cynnwys yn fwy mewn cyfarfodydd llywodraethu ac yn y gwaith o lunio adroddiadau strategol.

Mae bron bob ysgol yn arddangos cynnydd yn erbyn amcanion fframwaith y siarter iaith genedlaethol.

Bydd Cyngorwyr Her yn defnyddio ystod ehangach o dystiolaeth uniongyrchol er mwyn cynorthwyo ysgolion i hyrwyddo cynnydd a deilliannau gwell i bob dysgwr, gan gynnwys grwpiau agored i niwed.

Bydd y GCA yn ennill y Dyfarniad Buddsoddwyr Mewn Pobl ac yn dangos cynnydd cryf yn erbyn canlyniadau arohwg sefydliad sy'n dysgu y GCA.

Bydd adnodd ar-lein i gefnogi dysgu ac addysgu yn cael ei ddatblygu i ddangos enghreifftiau o arfer gorau, a rhannu arfer gorau ar draws y rhanbarth.

Bydd yr holl ysgolion a lleoliadau sy'n ymwneud â'r rhaglen addysgeg beilot wedi datblygu strategaeth dysgu ac addysgu neilltuoel ar gyfer eu hysgol sydd yn dechrau gwella ansawdd y dysgu a'r addysgu a lleihau amrywio o fewn yr ysgol.

Bydd adnodd ar-lein ar gyfer techyd a Llesiant, wedi'i deilwra'n arbennig ar gyfer pob awdurdod lleol, yn ei gwneud hi'n bosibl cyfeirio ysgolion i ddarpariaeth effeithiol, gan hyrwyddo deilliannau gwell i ddysgwyr agored i niwed.

Drwy adolygu Strategaeth Ranbarthol y Gymraeg, gwnaed cynnydd da o ran ymdrin, fel bo'n briodol, â'r camau sydd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth Cymraeg mewn Addysg a Cymraeg 2040: Strategaeth y Gymraeg.

Mae'r gyfradd ddirprwyo i ysgolion wedi'i chadw ar 94%.

Adran 4: Trefniadau cyflawni 2020/2021

Llywodraethu a chyllid

Mae'r GCA yn destun model llywodraethu cadarn y mae cytundeb Cydweithredu ac Aelodau ac Erthyglau Cwmni yn sail iddo. Mae sicrhau fod y GCA yn darparu gwerth am arian yn hollbwysig. Rydym yn gorff sy'n derbyn arian cyhoeddus, felly mae'n bwysig sicrhau fod cyllidebau yn cael eu dyrannu'n ddoeth. Byddwn yn ymdrechu i ddarparu gwerth am arian gwell fyth trwy sicrhau cydbwysedd ariannol a darparu gwasanaethau o fewn cyfyngiadau ein cyllideb, gan sicrhau rhagor o arbedion effeithlonrwydd ble gellir gwneud hynny a sicrhau y mwyafir cyfraddau dirprwyo i'n hysgolion.

Sut byddir yn sicrhau bod y GCA yn atebol am gyflawni'r Cynllun Busnes a'i effaith?

Bydd adroddiadau canol-blwyddyn am gynnydd o ran gweithredu'r Cynllun Busnes a'i effaith yn cael eu cyflwyno i'r Grŵp Cydweithredol ar y Cyd a Bwrdd y Cwmni. Bydd hyn yn cynnwys arfarniad o'r cynllun rhanbarthol ac o ddogfen atodol pob awdurdod lleol unigol. Fel a wnaed yn ystod blynyddoedd blaenorol, bydd y dogfennau hyn yn addas ar gyfer gweithgarwch craffu ar lefel awdurdodau lleol a'r lefel genedlaethol. Yn ychwanegol, bydd adroddiadau am y cynnydd a wneir tuag at weithredu'r camau allweddol yn cael eu cyflwyno yn holl gyfarfodydd y Grŵp Gweithredol ar y Cyd a Bwrdd y Cwmni.

Eleni, bydd y GCA yn rhoi adroddiadau am wybodaeth ychwanegol bob tymor, yn hytrach nag adroddiadau canol-blwyddyn, i'r Grŵp Gweithredol ar y Cyd ac awdurdodau lleol, ynghylch cynnydd ac effaith ei waith i gefnogi holl amcanion strategol yr awdurdodau lleol a'u meini prawf cysylltiedig, a hefyd ynghylch y cynnydd a wneir gan ysgolion tuag at eu targedau unigol. Bydd y dull hwn yn cyd-fynd â newidiadau ar y lefel genedlaethol yn y system atebolrwydd.

Trwy gydol y flwyddyn, bydd nifer o adroddiadau dros dro ynghylch effaith yn gysylltiedig â ffrydiau gweithredu yn y Cynllun Busnes, a chyflwynir yr adroddiadau hynny trwy law pob un o'r grwpiau llywodraethu, trwy bwyllgorau Awdurdodau Lleol unigol (pan ofynnir am hynny) a thrwy ddigwyddiadau arfarnu a gwella ar y cyd â swyddogion Llywodraeth Cymru. Maent yn cynnwys: adroddiadau am ddeilliannau a chynnydd disgyblion, cynnydd ysgolion sy'n achosi pryder, diweddariadau rheolaidd am weithgarwch hunan-arfarnu rhanbarthol/awdurdodau lleol a strategaethau rhanbarthol, adborth o adolygiadau allanol, adroddiad blynyddol y rhanbarth ynghylch gwerth am arian, Adroddiad Blynyddol y Rheolwr Gyfarwyddwr, a chanlyniadau arolygon o ysgolion a chyrrff llywodraethu yn y rhanbarth.

Caiff Bwrdd y Cwmni adroddiadau chwarterol am y cyfrifon ariannol a bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risgiau yn cael adroddiad amdanynt bob tymor. Caiff y cyfrifon terfynol ar ddiwedd y flwyddyn eu harchwilio'n allanol, a rhoddir adroddiadau am hynny yn unol â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU, 2016. I gydymffurfio â gofynion Deddf Cwmnïau, cyflwynir adroddiad am y cyfrifon hyn a chânt eu cymeradwyo yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol gan aelodau'r Grŵp Gweithredol ar y Cyd sy'n gyfranddalwyr y GCA.

Cyllid consortiwm

Caiff y GCA ei ariannu'n flynyddol o dair ffynhonnell: Cyfraniadau craidd awdurdodau lleol, grantiau gwella ysgolion rhanbarthol a chytundeb lefel gwasanaeth i ddarparu gwasanaethau cefnogi llywodraethwyr. Ceir cynllun gwariant sy'n ategu'r Cynllun Busnes, ac mae wedi'i gysylltu'n allweddol â'r holl gamau gweithredu yn y Cynllun Busnes. Mae trosolwg manwl o ddsbarthiad


rhanbarthol yr holl grantiau ar gael i'w weld gan ysgolion a'u galluogi i gymharu dyraniadau a chyfraddau dirprwyo trwy gyfrwng yr adnodd monitro grantiau rhanbarthol.

Mae cyfraddau dirprwyo grantiau i ysgolion wedi cynyddu i 94%, ac mae proffil staff y GCA wedi gostwng 48% ers 2012. Yn wreiddiol, pennwyd targed i elfen o'r GCA i sicrhau incwm masnachu gwerth £1.25m gan ysgolion i sicrhau bod y cyfrifon yn mantoli ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn bellach wedi'i ddileu'n llwyr o ddibyniaeth incwm, ac erbyn hyn, ni chodir tâl ar ysgolion am unrhyw hyfforddiant neu wasanaethau a ddarperir, yn unol â'r cynllun busnes.

Cyfraniadau gan Awdurdodau Lleol:

Mae'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2014, yn sail i gyllid gan awdurdodau lleol i ariannu gwaith consortia. Roedd y model yn argymhell dyraniad arian craidd gwerth £3.6m i'r GCA. Mae cyfraniad craidd presennol yr ALI yn seiliedig ar y ffigurau hyn, namyn yr arbedion effeithlonrwydd blynyddol gwerth £1.17m ers 2012, a gytunwyd trwy gydweithrediad â'r 5 awdurdod lleol. Dyma ffigurau dangosol yr awdurdodau lleol ar gyfer 2020/21:

Awdurdod	£
CBS Blaenau Gwent	358,985
CBS Caerffili	1,005,705
Cyngor Sir Fynwy	414,127
Cyngor Dinas Casnewydd	803,293
CBS Torfaen	516,355
Cyfanswm	3,098,465



Caiff £0.357m o'r cyfanswm uchod ei ddefnyddio i sicrhau capasiti yn y tîm Ymgynghorwyr Her o blith penaethiaid mewn swydd presennol a defnyddir £0.2m o'r cyfanswm i gyflawni cytundebau lefel gwasanaeth a thalu costau lleoliadau a ddarperir trwy law awdurdodau lleol.

Grantiau gwella ysgolion rhanbarthol

Mae'r Cytundeb Cydweithredu ac Aelodau yn cynnwys manylion y weithdrefn y mae'n rhaid ei dilyn ynghylch yr holl grantiau gwella ysgolion a dderbynnir yn y rhanbarth. Cymeradwyir yr holl grantiau gan Brif Swyddogion Addysg/Cyfarwyddwyr Addysg yr awdurdodau lleol, ac yn dilyn hynny, cânt eu cadarnhau gan aelodau'r Grŵp Gweithredol ar y Cyd.

Yn hanesyddol, câi'r rhanbarth ddau brif grant gan Lywodraeth Cymru, sef y Grant Datblygu Disgyblion (GDD) a'r Grant Gwella Addysg (GGA). Mae'r GGA wedi'i ail-ddynodi yn Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol, ac mae'n cynnwys rhaglenni penodol i gynorthwyo i gyflawni amcanion 'Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl'. Yn ogystal â'r ddau brif grant, cafwyd dau grant dangosol rhanbarthol bychan ar gyfer dysgwyr SEREN.

Enw'r Grant	Cyfanswm y Grant	Cyfanswm a Ddirprwyir i Ysgolion	Cyfradd Dirprwyo*	Swm a Gedwir yn Rhanbarthol
	Cyfrifiad Dangosol 2020/21			
	£	£		£
Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol				
- Grant Gwella Addysg	24,930,697	23,133,194	93%	1,797,503
- Dysgu Proffesiynol i Athrawon	2,231,515	2,231,515	100%	0
- Rhaglenni grantiau eraill	3,527,764	2,658,940	75%	868,824
Grant Datblygu Disgyblion (GDD)	18,064,750	18,064,750	100%	0
GDD (Cynghorydd Arweiniol y Rhanbarth ynghylch y GDD)	100,000	0	0%	100,000
Seren Cyn-16	98,400	98,400	100%	0
Seren Ôl-16	55,000	55,000	100%	0
Cyfanswm	49,008,126	46,241,799	94.4%	2,766,327

*Dirprwyo: Mae hyn yn cyfeirio at gyllid y mae gan yr ysgol ryddid i ddewis sut caiff ei ddefnyddio. Fodd bynnag, bydd yn rhaid gwario'r arian yn unol ac yn gydnaws â diben craidd y grant a chynllun datblygu'r ysgol unigol.

Ni fyddai'r canlynol yn cael eu hystyried yn enghreifftiau o gyllid wedi'i ddirprwyo:

- Staff wedi'u secondio o'r ALI neu'r consortiwm i ysgol(ion) neu glwstwr/glystyrau.
- Staff yn gweithio trwy'r amser (neu'n rhannol) mewn ysgolion ac yn cael eu talu o gyllideb wrth gefn awdurdod lleol neu gonsortiwm.
- Staff neu wasanaethau sy'n rhan o Gytundeb Lefel Gwasanaeth – ystyrir y math hwn o weithgarwch yn gyllid heb ei ddirprwyo.
- Arian a ddirprwyir o'r consortiwm i awdurdod lleol.

Mae sawl ffactor, yn cynnwys cyllid, cyflawni'r cynllun busnes, baich gwaith, a disgwyliad Awdurdodau Lleol, y GCA a Llywodraeth Cymru ynghylch buddion grantiau, wedi arwain at gynnig sefydlu adnodd byw gwell i gynllunio grantiau 2020/21 ar gyfer ysgolion a chlystyrau. Mae'r adnodd cynllunio ar gyfer ysgolion yn cyflawni ynghylch pob un o'r ffactorau hyn. Defnyddir Hwb Llywodraeth Cymru i letya'r adnodd, a bydd ar gael i staff allweddol o'r ysgolion unigol, yr ALI a'r GCA.

Mae'r adnodd wedi'i gynllunio i gofnodi holl gostau'r grantiau sy'n gysylltiedig â Chenhadaeth ein Cenedl, darparu tryloywder ynghylch gwariant ysgolion a'r rhanbarth a llunio adroddiadau am effaith arfaethedig a chanlyniad y grant, ac mae'n cynnwys cyfeiriad uniongyrchol at Becyn Cymorth Sutton. Gall yr adnodd groesgyfeirio hefyd at gynllun datblygu'r ysgol, a bydd sawl ysgol yn cynnal peilot o'r dull 'un cynllun' yn 2020/21. I gryfhau tryloywder ymhellach, bydd pob ysgol ar draws y rhanbarth yn cael mynediad byw at y grantiau unigol sydd wedi'u dirprwyo i bob ysgol.

Cytundeb Lefel Gwasanaeth y Gwasanaeth Cefnogi Llywodraethwyr

Mae gan y GCA gyfrifoldeb i ddarparu gwasanaeth Cefnogi Llywodraethwyr i holl ysgolion y rhanbarth. Mae'r gwasanaeth yn darparu cymorth i gyrrff llywodraethu ysgolion, penaethiaid, a llywodraethwyr unigol. Mae hyn yn cynnwys cyngor, arweiniad, hyfforddiant, a gwasanaeth clericio opsiynol i gynorthwyo cyrrff llywodraethu i gyflawni eu cyfrifoldebau.

Darperir y gwasanaeth clericio opsiynol trwy gyfrwng cytundeb lefel gwasanaeth blynyddol sy'n cynnig yr opsiwn o brynu gwasanaeth clericio, ac yn ychwanegol, gwasanaeth clericio yng nghyfarfodydd pwyllgorau statudol. Dim ond un ysgol a ddewisodd beidio prynu'r gwasanaeth clericio yn 2019/20. Mae cyllid dangosol 2020/21 yn £0.388m.

Adran 5: Dogfennau ategol ychwanegol

Mae'r dogfennau dilynol yn ategu'r Cynllun Busnes hwn:

- Dogfennau Atodiadau Awdurdodau Lleol 2020 - 2021
- Cynllun Busnes Manwl 2020/2021
- Trosolwg tymor hir 2021-2023
- Trosolwg Mapio Grantiau'r Rhanbarth 2020-2021
- Adroddiad Hunan-arfarnu Rhanbarthol (Crynodeb Gweithredol)
- Cofrestr Risgiau'r GCA (Crynodeb Gweithredol)
- Arlwy Dysgu Proffesiynol Rhanbarthol 2020-2021
- Cynlluniau Strategol Addysg yr Awdurdodau Lleol
- Adolygiad canol-blwyddyn a diwedd blwyddyn Cynllun Busnes y GCA, 2019/2020